GWASG PRIFYSGOL CYMRU
MCMXVI

W. E. Gladstone

St. Deiniol's Library
Hawarden, Clwyd
CANCELLED
Founded by
The Rt. Hon. W. E. Gladstone

ST. DEINIOL'S LIBRARY
HAWARDEN

G
32

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/carwrycymry0000john

CARWR Y CYMRY

1631

1930

CARWR Y CYMRY

Yn annog ei genedl annwyl a'i gyd-wladwyr er mwyn Crist a'u heneidiau i chwilio yr Ysgrythyrau yn ol gorchymyn Crist

Y rhai yr awrhon yn ddiweddar a brintiwyd o newydd yn Gymraeg

1631

ADARGRAFFIAD
gyda rhagymadrodd
gan
Syr JOHN BALLINGER

CAERDYDD
GWASG PRIFYSGOL CYMRU
1930

ST. DEINIOL'S LIBRARY,
HAWARDEN.

ARGRAFFWYD YM MHRYDAIN FAWR GAN GWMNI'R
CAMBRIAN NEWS, CYF., ABERYSTWYTH.

INTRODUCTION

There are two Welsh books bearing the title *Car-wr y Cymru*, issued in 1630 and 1631 respectively. The first is a small book of sixteen pages, and the second a larger book running to 136 pages, including the ten preliminary pages. The printers are Nicholas Okes for the first and Felix Kyngston for the second. The titles of the two books read as follows :—

CAR-WR Y CYMRU, | Yn anfon ychydig gymmorth | i bôb Tâd, a mam sy'n ewyllysio | bod eu plant yn blant i Dduw | hefyd : a chael o honynt wir | wybodaeth o ffordd | iechydwriaeth. | Neu ymddiddan Ysprydol rhwng | rhieni a'u plant, yn cynnwys eu | dyled-swydd iw | gilydd. | . . . | Printiedig yn *Llundain* gan *Nicholas Okes* dros | *Philemon Stephens*, a *Christopher Me-* | *redyth*, tan arwydd y Llew- | Euraid ym Monwent S. | Paul. 1630.
Duodecimo. 137×88 mm. pp. iv (3 blank), 12 (1 blank) = 16.

CAR-WR Y CYMRU, | Yn annog ei genedl anwyl, a'i gyd- | *wlad-wyr er mwyn Crist ai heneidiau i* | chwilio, yr Scrythyrau, yr ol gorchy- | myn Crist. Ioh. 5. 39. | Y rhai, *yr awr'hon yn ddiweddar â brintiwyd* | o newydd yn Gymraec ; ac a geir ar werth | yn llyfran [*sic*] cynnwys, a bychain eu maintioli a'i | *prîs, drwy fawr ddiwydrwydd, a thraul swrn* | o wyr Duwyol,

enwog ac ewyllys-gar | i *wneuthur daioni i'r* | Cymru. | . . . | Llvndain, | Printiedig gan Felix Kyngston, | *drwy awdurdod.* 1361 [*for* 1631]. *Ends*: Felix Kyngston *ai preintiodd, dros yr Awdur, drwy Awdurdod.*
Small 8vo. 137×89 mm. pp. x, 126.

ANOTHER ISSUE, with date corrected, 1631, and in fourth line of title " yr ol gorchymyn " corrected to "yn ol gorchymyn." Except for a few typographical differences the two issues are identical.

The 1630 *Car-wr* was printed for Philemon Stephens and Christopher Meredyth, who, judging by their names, may be presumed to have had Welsh connections. They were young men in partnership as booksellers, and continued for many years after 1630 their business of bookselling, with occasional publishing of minor books. The smaller *Car-wr* is a catechism between father and child, and is concerned with the duties of parents and children and the instruction of children in Christian doctrine.

The little book was reprinted in 1738 by Durston at Shrewsbury (see Rowlands, p. 376) " tros Dafydd Jones Athraw Yscol Gymreig," but no copy has been found; in 1764 (Mwythig tros Robert Lloyd); and in 1765 (Mwythig, W. Williams tros Peter Morris) " y pedwaredd argraphiad," which agrees with the record if we include the 1738 edition entered by Rowlands.

The text consists mainly of quotations from the Bible and therefore does not afford much assistance as to whether the author (or rather compiler) was from North or South Wales.

Neither Moses Williams (*Cofrestr*) nor Rowlands records the 1630 *Car-wr*. The existence of *two* works with the same title was not recognised before 1916, when both were included in the National Library exhibition of rare Welsh books. This little book may have been issued as a preliminary to the larger work, which must have been in preparation for some time as the number of persons concerned in it shows. That the two were due to the same influence is fairly clear.

The preparation of the Welsh Bible of 1630 (Y Beibl Bach) brought together a group of earnest Welshmen who laboured for the revival of religion in Wales by an appeal to the people in the Welsh language. Two editions of the Welsh Bible had previously been printed, 1588 and 1620, both folios for use in churches, but until 1630 there was no Welsh Bible within the means of the people. This edition, sold for five shillings, marks an important period in Welsh religious history.

It is not necessary to go into the story of the 1630 Welsh Bible. That has been dealt with elsewhere.*

**The Bible in Wales* (1906), pp. 26–7, *and* Miss M. F. Hall, "Michael Roberts the Corrector for the Press of the Welsh Bible of 1630", *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Vol. II, pp. 302–313.

What is important is that two wealthy London Welshmen, Sir Thomas Myddleton, and Rowland Heylin an alderman of the City of London, were active in promoting the welfare of their fellow-countrymen in Wales, and secured the co-operation of good Welsh scholars, among them Robert Lloyd, Vicar of Chirk (doubtless a friend of Sir Thomas Myddleton, of Chirk Castle); Michael Roberts, of Jesus College Oxford; and Rowland Vaughan, of Caer Gai, the translator into Welsh of Lewis Bayly's *Practice of Piety*, which was in the press at the same time as the Bible. Probably there were others—Rhys Prichard, author of *Canwyll y Cymru*, may have been one, and it has been suggested that he was the author of the larger *Car-wr* and a promoter of the 1630 Bible, but this is only conjecture.* The authorship has also been ascribed to Oliver Thomas—this will be discussed later.

In the " Epistle dedicatory " the author of the 1631 *Car-wr* refers to those ' who have put their helping hand and hearts to that late, necessary, and worthy worke of setting forth the Bible in Welsh in a small volume . . . ' which suggests that he too was a participator in the movement.

The movement promoted by Myddleton and Heylin

---

*Ivor James, *Y Traethodydd*. Mawrth 1893.

resulted in the publication of the following works :—

1629. (1) Rheol o gyfarwyddyd iw harfer wrth ymweled ar Clâf. Printer : Thomas Harper.

(2) Dent, Arthur. Pregeth Dduwiol . . . Printer : Nicholas Dervven.

1630. (3) Dent, Arthur. Llwybr hyffordd . . . Printer : Nicholas Okes.

(4) Dent, Arthur. Pregeth Dduwiol, a reissue of No. 2. Printer : Nicholas Dervven.

(5) Y Bibl . . . Printer : R. Barker, etc.

(6) Bayly, Lewis. Yr Ymarfer o Dduwioldeb . . . Printer : Felix Kyngston.

(7) Car-wr y Cymru (catechism for parents to instruct children). Printer : Nicholas Okes.

1631. (8) Car-wr y Cymru (the larger work, for adults). Printer : Felix Kyngston.

(9) Parsons, Robert. Llyfr y Resolusion, translated by Dr. John Davies. Printer : John Beale.

1633. (10) Llyfr Plygain. Printer : John Beale.

(11) Yr A.B.C. neu Catechisme. Printer : John Beale.

1634. (12) Liyfr [*sic*] Gweddi Gyffredin. Printer : Assignes of Iohn Bill.

The *Bible* and the *Prayer Book* were by the King's printer, the *Llyfr Plygain* by the official proprietor of

the rights in that book, who also printed *Llyfr y Resolusion*, and *Yr A.B.C.* We then get Thomas Harper, Nicholas Okes, and Felix Kyngston. Harper printed one, Kyngston two, and Okes three books. It should be noted that on two books in the above list (Nos. 2 and 4) the name of Nicholas Okes is given in a Welsh form—Nicholas Dervven. This list shows that the group of well-wishers to Wales were not only active, but fully aware that to arrive at success it was necessary to approach the people in the native language. Rhys Prichard of Llandovery had been doing this from his pulpit for some years. He was earnest and eloquent in attacking the frivolities and licentiousness of his time, and introduced into his sermons stanzas written in colloquial Welsh, because as he said ' set preaching did little good, while a snatch of song was always listened to.' With the exception of one song the Vicar's poems, so far as is known, were not printed until after his death (1646), but they were popular and much recited during his lifetime, and it is just possible that some may have been printed in ballad form, though no evidence of this is available at present. The fact that of the smaller *Car-wr y Cymru* only one complete copy has survived, and that in a fragile state, shows that these small products of the press were used to an extent which led to their extinction. The second, larger work, here reprinted, has been known from the copy of the 1631

edition in the British Museum and from the later reprints. Though the small book issued in 1630 is an entirely different work, the use of a similar title for both suggests a common origin, which I attribute to the Myddleton-Heylin movement.

The larger *Car-wr*, for adults, is written in very good Welsh, probably by a native of North Wales. The author says he is a clergyman of the Established Church, and in " At y Darlleydd " by R. Lloyd, at the end of the book, it is stated that the writer desires to conceal his identity in order to show that he seeks no glory for himself.

The work has been ascribed to Oliver Thomas. On the title page of the British Museum copy is written " by Oliver Thomas," and it is entered as by Oliver Thomas in the *Cofrestr* (1717) of Moses Williams. The note on the British Museum copy may be due to the *Cofrestr* entry. Moses Williams is a reliable authority, but in the absence of evidence of the authorship he may in this instance have been mistaken. His copy of the 1631 *Car-wr* is in the National Library (Ws. 193). It bears a MS. note at the foot of the title page ' M. Williams. Ex dono Humfredi Wanley. A.D. 1714.'

Three tracts were issued in 1677 with the title *Tryssor i'r Cymru*. The second tract *Drych i dri math o bobl*, etc., is described as " the work of Mr. Oliver Thomas, Carwr y Cymru." The other tracts are the sermon of

Arthur Dent translated by Robert Lloyd, and *Bellach neu Byth* by Richard Baxter. The printer was Thomas Dawks.

Another volume of tracts, bearing the same date, 1677, was also printed by Dawks. It bears the title *Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd*, etc., and contains five tracts—one being *Car-wr y Cymru*, a reprint of the 1631 *Car-wr*, with the epistle dedicatory, the grammatical notes by Edward Kyffin, and the list of contents omitted. There is a separate title page for each tract, that of the *Car-wr* being abridged.

Foster's *Alumni Oxonienses* gives two graduates bearing the name Oliver Thomas, both said to be from Co. Montgomery. The first, described as pleb., matriculated 1st July, 1603, aged 16, B.A., 14th December, 1605, of Oriel College. He may be identified as the Oliver Thomas who was ordained and held benefices in Co. Pembroke. The second, described as gent., was of Hart Hall, and matriculated 8th November, 1616, aged 18, B.A., 28th June, 1620, M.A., 8th July, 1628. He is said, by Anthony Wood, who was his contemporary at Oxford, to have worked in Shropshire and to have died at Felton.

This Oliver Thomas, born 1598, who was ordained and afterwards developed a strong Puritan leaning, and who was active among the Presbyterians for several years, may have been one of the company gathered round

Myddleton, Heylin, and Robert Lloyd, Vicar of Chirk. At that time he was an ordained clergyman and therefore he may have been the clergyman of the Established Church who desired to conceal his identity in order to show that he sought no glory for himself.

The description of Oliver Thomas as " Carwr y Cymru " on the title page of *Tryssor i'r Cymru*, twenty years or so after his death, may mean that a long preserved anonymity is disclosed ; on the other hand it may be that it misled Moses Williams some years later into confusion about the book and the man. Further evidence as to the authorship may yet be found, but at present it can only be left an open question.

Three editions of the work (counting the two issues of 1631 as one) are known, viz. :—

1631 London : F. Kyngston.

1677 (In *Cyfarwydd-deb*), London : T. Dawks.

1766 (Abridged, in *Drych y Cristion*), Dublin : S. Powell.

The present volume is a reprint of the *Car-wr y Cymru* of 1631, the larger work, in its corrected form. Presumably the error in the date and ' yr ' for ' yn ' in the title of the first issue were detected while the book was

in the press, the correction being made at once, only one copy with the incorrect date being known.

The text of the 1631 issue is followed page for page and line for line; all errors of spelling are retained; inverted letters are rectified and the modern "s" is substituted for the long one.

Facsimiles of the title pages of the two issues of 1631 are given.

I desire to acknowledge the assistance rendered by Mr. W. Ll. Davies and other colleagues on the staff of the National Library in the investigations for this Introduction, and by Mr. William Williams and Miss M. B. Roberts, who have also read the proofs of the text.

JOHN BALLINGER.

12th May, 1930.

RHAGYMADRODD

Cyhoeddwyd dau lyfr o dan y teitl *Car-wr y Cymru*, y naill yn 1630 a'r llall yn 1631. Llyfr bychan o un tudalen ar bymtheg ydyw'r cyntaf, a'r ail yn fwy llyfr yn ymestyn i gant ac un ar bymtheg ar hugain o dudalennau, gan gyfrif y deg tudalen rhagarweiniol. Argraffydd y cyntaf oedd Nicholas Okes, argraffydd yr ail Felix Kyngston. Teitlau'r ddau lyfr ydyw :—

CAR-WR Y CYMRU, | Yn anfon ychydig gymmorth | i bôb Tâd, a mam sy'n ewyllysio | bod eu plant yn blant i Dduw | hefyd : a chael o honynt wir | wybodaeth o ffordd | iechydwriaeth. | Neu ymddiddan Ysprydol rhwng | rhieni a'u plant, yn cynnwys eu | dyled-swydd iw | gilydd. | . . . | Printiedig yn *Llundain* gan *Nicholas Okes* dros | *Philemon Stephens*, a *Christopher Me-*|*redyth*, tan arwydd y Llew- | Euraid ym Monwent S. | Paul. 1630.
12 plyg. 137×88 mm. tud. iv (3 gwag), 12 (1 gwag) =16.

CAR-WR Y CYMRU, | Yn annog ei genedl anwyl, a'i gyd- | *wlad-wyr er mwyn Crist ai heneidiau i* | chwilio, yr Scrythyrau, yr ol gorchy- | myn Crist. Ioh. 5. 39. | Y rhai, *yr awr'hon yn ddiweddar â brintiwyd* | o newydd yn Gymraec ; ac a geir ar werth | yn llyfran [*sic*] cynnwys, a bychain eu maintioli a'i | *prîs, drwy fawr*

ddiwydrwydd, a thraul swrn | o wyr Duwyol, enwog ac ewyllys-gar | i *wneuthur daioni i'r* | Cymru. | . . . | Llvndain, | Printiedig gan Felix Kyngston, | *drwy awdurdod.* 1361 [*am* 1631.] *Diwedda* : Felix Kyngston *ai preintiodd, dros yr Awdur, drwy Awdurdod.*

8 plyg bychan. 137×89 mm. tud. x, 126.

Printiad arall (1631) gyda'r dyddiad, y geiriau "yr ol gorchymyn" ym mhedwaredd linell y teitl, a mân wallau eraill wedi eu cywiro. Ym mhob ystyr arall yr un yw'r ddau brintiad.

Argraffwyd *Car-wr* 1630 dros Philemon Stephens a Christopher Meredyth, dau, a barnu oddiwrth eu henwau, y gellir tybied bod iddynt gysylltiadau â Chymru. Dynion ieuainc oeddynt mewn partneriaeth fel llyfr-werthwyr ac am lawer blwyddyn ar ol 1630 daliasant i werthu llyfrau a chyhoeddi ambell lyfryn o dro i dro.

Holwyddoreg ydyw'r *Car-wr* rhwng tad a'i blentyn yn ymdrin â dyledswyddau rhieni a phlant, a hyfforddiad plant mewn athrawiaeth Gristionogol.

Argraffwyd y llyfryn drachefn yn 1738 gan Durston yn Amwythig (gwel. Rowlands tud. 376) "tros Dafydd Jones, Athraw Yscol Gymreig," ond ni ddaethpwyd o hyd i gopi ohono ; yn 1764 (Mwythig, tros Robert Lloyd) ; ac yn 1765 (Mwythig, W. Williams tros Peter Morris) "y pedwaredd argraphiad"—ac yn gywir felly a chyfrif argraffiad 1738 a enwir gan Rowlands.

Dyfyniadau o'r Beibl ydyw'r testun gan mwyaf, ac felly anodd yw penderfynu pa un ai Gogleddwr ynteu Deheuwr ydoedd yr awdur (neu yn hytrach y casglydd).

Ni chofnoda na Moses Williams (*Cofrestr*) na Rowlands *Gar-wr* 1630, ac ni wyddid bod *dau* waith gyda'r un teitl hyd oni ddangoswyd y ddau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn y flwyddyn 1916 mewn arddangosfa llyfrau Cymraeg prin. Hwyrach ddarfod cyhoeddi'r llyfr fel rhag-arweiniad i'r un mwyaf, a oedd ar y gweill ers peth amser fel y gwelir oddiwrth rifedi'r gwŷr a oedd a wnelent ag ef. Y mae'n weddol eglur mai yr un dylanwad oedd wrth wraidd y ddau.

Wrth baratoi Beibl Cymraeg 1630 (Y Beibl Bach) dygwyd at ei gilydd nifer o Gymry eiddgar a geisiai ddiwygio crefydd yng Nghymru trwy apelio at y werin yn yr iaith Gymraeg. Argraffwyd eisoes Feiblau 1588 a 1620, y ddau yn Feiblau mawr (dalen unplyg) at wasanaeth eglwysi, ond nid oedd Beibl yng nghyrraedd y werin hyd y flwyddyn 1630. Egyr yr argraffiad hwn, a werthwyd am bum swllt, gyfnod pwysig yn hanes crefyddol Cymru.

Afraid yw manylu ynghylch hanes Beibl Cymraeg 1630. Gwnaethpwyd hynny mewn lle arall*. Yr hyn

---

**The Bible in Wales* (1906), tud. 26–7, *a* Miss M. F. Hall "Michael Roberts: The Corrector for the Press of the Welsh Bible of 1630". *Journal of the Welsh Bibliographical Society*. Cyf. II, tud. 302–313.

sydd o bwys ydyw bod dau Gymro cyfoethog o Lundain, Syr Thomas Myddleton, a Rowland Heylin henadur o'r brif-ddinas, yn dyfal hyrwyddo lles eu cyd-wladwyr yng Nghymru, ac iddynt ennill cydweithrediad ysgolheigion Cymraeg o fri, yn eu plith Robert Lloyd, Ficer y Waun (cyfaill yn ddiamau i Syr Thomas Myddleton o Gastell y Waun); Michael Roberts o Goleg yr Iesu, Rhydychen; a Rowland Vaughan o Gaer Gai, cyfieithydd *The Practice of Piety* Lewis Bayly i'r Gymraeg—cyfieithiad a oedd yn y wasg yr un adeg a'r Beibl. Yn ol pob tebyg yr oedd eraill yn cynorthwyo, a hwyrach bod Rhys Prichard, awdur *Canwyll y Cymru*, yn un ohonynt; awgrymir hefyd mai efe oedd awdur y mwyaf o'r ddau *Gar-wr y Cymru* ond nid yw hyn amgen na dyfaliad*.

Priodolir awduriaeth y llyfr hefyd i Oliver Thomas a cheir sylwi ar hyn ymhellach.

Yn ei lythyr cyflwyn cyfeiria awdur *Car-wr* 1631 at y rhai a estynnodd law a chalon i'r diweddar waith angenrheidiol a theilwng o osod allan y Beibl yn Gymraeg mewn cyfrol fechan—awgrym bod ganddo yntau ran yn y symudiad.

Cynnyrch y symudiad a gychwynwyd gan Myddleton a Heylin fu cyhoeddi y gweithiau canlynol:—

1629. (1) Rheol o gyfarwyddyd iw harfer wrth ymweled ar Clâf. Argraffydd: Thomas Harper.

*Ivor James. *Y Traethodydd*. Mawrth 1893.

1629. (2) Dent, Arthur. Pregeth Dduwiol . . . Argraffydd : Nicholas Dervven.

1630. (3) Dent, Arthur. Llwybr hyffordd . . . Argraffydd : Nicholas Okes.

(4) Dent, Arthur. Pregeth Dduwiol, adargraffiad o Rif. 2. Argraffydd : Nicholas Dervven.

(5) Y Bibl . . . Argraffydd : R. Barker, etc.

(6) Bayly, Lewis. Yr Ymarfer o Dduwioldeb . . . Argraffydd : Felix Kyngston.

(7) Car-wr y Cymru (holwyddoreg i rieni hyfforddi eu plant). Argraffydd : Nicholas Okes.

1631. (8) Car-wr y Cymru (y gwaith i rai mewn oed). Argraffydd : Felix Kyngston.

(9) Parsons, Robert. Llyfr y Resolusion, wedi ei gyfieithu gan Dr. John Davies. Argraffydd : John Beale.

1633. (10) Llyfr Plygain. Argraffydd : John Beale.

(11) Yr A.B.C. neu Catechisme. Argraffydd : John Beale.

1634. (12) Liyfr [*sic*] Gweddi Gyffredin. Argraffydd : Dirprwyon Iohn Bill.

Argraffwyd y *Beibl* a'r *Llyfr Gweddi* gan argraffydd y Brenin, y *Llyfr Plygain* gan berchen swyddogol hawliau'r

llyfr hwnnw, a argraffodd hefyd *Lyfr y Resolusion* a'r *A.B.C.* Yna cawn Thomas Harper, Nicholas Okes, a Felix Kyngston. Argraffodd Harper un, Kyngston ddau, ac Okes dri llyfr. Dylid sylwi y cyfieithir enw Nicholas Okes—Nicholas Dervven—ar ddau lyfr yn y rhestr uchod (Rhif. 2 a 4). Dengys y rhestr hon bod cylch ewyllyswyr da Cymru nid yn unig yn weithgar ond yn llawn sylweddoli bod yn rhaid cyrraedd y werin yn ei hiaith ei hun os am sicrhau llwyddiant.

Gwnaethai Rhys Prichard, Llanymddyfri, hyn o'i bulpud ers rhai blynyddoedd. Ymosododd o ddifrif ac yn hyawdl ar wamalrwydd ac oferedd ei oes, a rhoddodd le yn ei bregethau i benillion mewn Cymraeg bob dydd am y gwelai na wnai pregethu ffurfiol fawr o les tra gwrandawai pawb ar bwt o gân. Ag eithrio un gân ni chyhoeddwyd caneuon y Ficer, hyd y gwyddys, tan ar ol ei farwolaeth (1646), ond yr oeddynt yn boblogaidd ac yn cael eu mynych adrodd yn ei fywyd, ac y mae'n bosibl ddarfod argraffu rhai ohonynt ar ffurf baledi er nad oes gennym hyd yma brawf o hynny. Y mae'r ffaith mai un copi cyfan yn unig o'r *Car-wr y Cymru* bychan sydd ar gael, a hwnnw mewn cyflwr bregus, yn dangos y defnyddid mân gynhyrchion y wasg nes eu difodi.

Gwyddid am *Gar-wr y Cymru*, 1631, a adargreffir yma, oddiwrth gopi'r Amgueddfa Brydeinig a'r argraffiadau diweddarach. Er mai gwaith hollol wahanol ydyw'r llyfr

bychan a gyhoeddwyd yn 1630 awgryma y teitl cyffelyb sydd i'r ddau eu bod yn tarddu o'r un ffynhonnell, sef symudiad Myddleton-Heylin.

Ysgrifennwyd y *Car-wr* mwyaf i rai mewn oed, mewn iaith dda, yn ol pob tebyg gan frodor o Ogledd Cymru. Dywed yr awdur ei fod yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig, ac yn llythyr R. Lloyd ' At y Darlleydd,' yn niwedd y llyfr, mynegir bod yr awdur yn dymuno celu ei enw er mwyn dangos nad yw yn chwennych clod iddo'i hun.

Priodolwyd y gwaith i Oliver Thomas. Ar wyneb-ddalen copi'r Amgueddfa Brydeinig ceir "gan Oliver Thomas" mewn llawysgrif, a chofnodir ef fel gwaith Oliver Thomas yng *Nghofrestr* (1717) Moses Williams. Hwyrach mai'r cofnodiad hwn sydd yn cyfrif am y nodyn ar gopi'r Amgueddfa Brydeinig.

Y mae Moses Williams yn awdurdod y gellir dibynnu arno, ond yn niffyg prawf o'r awduriaeth dichon ei fod wedi cyfeiliorni y tro hwn. Y mae ei gopi o *Gar-wr* 1631 yn y Llyfrgell Genedlaethol (Ws. 193), gyda nodyn mewn llawysgrif ar waelod y wyneb-ddalen "M. Williams, Ex. dono Humfredi Wanley. A.D. 1714."

Yn y flwyddyn 1677 cyhoeddwyd tri thraethawd dan yr enw *Tryssor i'r Cymru*. Disgrifir yr ail draethawd fel "gwaith Mr. Oliver Thomas Carwr y Cymru." Pregeth Arthur Dent wedi ei chyfieithu gan Robert Lloyd

a *Bellach neu Byth*, gwaith Richard Baxter, ydyw'r ddau draethawd arall. Thomas Dawks oedd yr argraffydd.

Cyhoeddwyd cyfrol arall o draethodau yn yr un flwyddyn, 1677, gan Dawks, yn dwyn yr enw *Cyfarwyddeb i'r Anghyfarwydd*, etc. Cynnwys bum traethawd—*Car-wr y Cymru* yn un ohonynt, sef adargraffiad o *Gar-wr* 1631 gan adael allan y llythyr cyflwyn, sylwadau gramadegol Edward Kyffin, a thaflen y cynhwysiad. Y mae i bob traethawd ei wyneb-ddalen ei hun, eiddo'r *Car-wr* yn dalfyredig.

Rhydd *Alumni Oxonienses* Foster ddau wr gradd o'r enw Oliver Thomas, y ddau, meddir, o Sir Drefaldwyn. Ymaelododd y cyntaf, a ddisgrifir fel pleb., yn y brifysgol Gorffennaf 1af., 1603, yn un ar bymtheng mlwydd oed; graddiodd Rhagfyr 14eg, 1605, o Goleg Oriel. Gellir awgrymu mai'r Oliver Thomas a ordeiniwyd ac a ddaliodd fywiolaethau eglwysig yn Sir Benfro ydoedd hwn. Aelod o Hart Hall oedd yr ail, a ddisgrifir fel gent. Ymaelododd yn y brifysgol Tachwedd 8fed, 1616, yn ddeunaw mlwydd oed; graddiodd yn B.A., Mehefin 28ain, 1620, ac yn M.A., Gorffennaf 8fed, 1628. Dywed Anthony Wood, ei gyfoeswr yn Rhydychen, iddo lafurio yn Sir Amwythig a marw yn Felton.

Gall yr Oliver Thomas hwn (g.1598), a ordeiniwyd, ond wedi hynny a ddatblygodd duedd gref at Biwritaniaeth ac a fu yn weithgar ymysg y Presbyteriaid am lawer blwyddyn, fod yn un o'r cwmni a amgylchai Myddleton,

Heylin, a Robert Lloyd, Ficer y Waun. Yr adeg honno yr oedd yn offeiriad ordeiniedig ac felly y mae'n bosibl mai efe oedd y gŵr a ddymunai gelu ei enw er mwyn dangos nad oedd yn chwennych clod iddo'i hun.

Gall y disgrifiad ar wyneb-ddalen *Tryssor i'r Cymru* o Oliver Thomas fel "Car-wr y Cymru", tuag ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth, fod yn ddatguddiad o'r enw a gelwyd mor ofalus am amser maith; ar y llaw arall gall fod wedi arwain Moses Williams, flynyddoedd yn ddiweddarach, i ddryswch ynghylch y llyfr a'r dyn. Hwyrach y daw rhyw brawf o awduriaeth y llyfr i'r golwg ond ar hyn o bryd rhaid gadael y ddadl yn ben-agored.

Gwyddys am dri argraffiad o'r gwaith (gan gyfrif dau brintiad 1631 yn un):—

1631. Llundain: F. Kyngston.

1677 (Yn *Cyfarwydd-deb*), Llundain: T. Dawks.

1766 (Talfyredig, yn *Drych y Cristion*), Dulyn: S. Powell.

Adargraffiad ydyw'r gyfrol bresennol o *Gar-wr y Cymru* 1631, y gwaith y bu dau brintiad ohono. Gan nad oes ond un copi ar gael gyda'r dyddiad anghywir, tebyg ydyw i'r gwall yn y dyddiad, 'yr' y teitl, a'r mân wallau eraill gael eu cywiro a'r llyfr eto yn y wasg.

Dilynir argraffiad 1631 yn fanwl, dudalen am dudalen a llinell am linell; cedwir at bob gwall mewn sillafiaeth; cywirir llythrennau oedd wedi eu gwrthdroi a defnyddir yr "s" gyffredin am yr un hir.

Rhoddir ffacsimili o wyneb-ddalennau dau brintiad 1631.

Diolchaf i Mr. W. Ll. Davies a chydswyddogion eraill yn y Llyfrgell Genedlaethol am eu cymorth yn yr ymchwil i fanylion y Rhagymadrodd hwn, ac ymhellach i Mr. William Williams a Miss M. B. Roberts am ddarllen a chywiro'r proflenni. Miss Roberts a droes y Rhagymadrodd i'r Gymraeg.

JOHN BALLINGER.

Mai 12, 1930.

Car-wr y Cymru.

Yn annog ei geneol anwyl, at y gwir
wlad-wyr er mwyn Crist ar heneidiau i
chwilio, yr Scrythyrau, yr ei gorchy-
myn Crist. Ioh. 5. 39.

Y rhai, yr awr hon yn ddiweddar a drowsyd
o newydd yn Gymraec; ac a geir ar werth
yn Llyfran cynnwys, a brychiaw o maintioli
pris, drwy fawr ddiwydrwyd, a thraul mawr
o wyr Duw yol, enwog ac ewyllys-gar
i waeth bar daioni yr
Cymry.

Prŷn y gwir, ac na werth, &c. Diar.

Matth. 22. 23.

Yr ydych mewn amryfuseudd, o herwydd
Scrythyrau, na nerth Duw.

Audite obsecro seculares omnes, &c.

Et Hom. 2. in Psal.

Et dum divina Biblia ex manu Spiritus, &
ea posita sunt, magno studio sectamini.

LLYNDAIN,

Printiedig gan

ar y werthiad

Ffacsimili o wyneb-ddalen yr argraffiad cyntaf.
(*Llithrodd yr argraffydd pan roes* 1361 *yn lle* 1631).

Car-wr y Cymru,

Yn annog ei genedl anwyl, a'i gyd-
wlad wyr er mwyn Crist ai heneidiau i
chwilio, yr Scrythyrau, ynol gorchy-
myn Crist. Ioh. 5. 39.

Y rhai, yr awr' hon yn ddiweddar â brintiwyd
o newydd yn Gymraec; ac a geir ar werth
yn Llyfran cynnwys, a bychain eu maintioli a'i
pris, drwy fawr ddiwydrwydd, a thraul fawr
o wyr Duw yol, enwog ac ewyllys-gar
i wneuthur daioni i'r
Cymru.

Prŷn y gwîr, ac na werth, &c. *Dihar.* 23. 23.
MATH. 22. 23.

Yr vdych mewn amryfuseud, o herwydd na wyddoch yr
Scrythyrau, na nerth Duw.

Chry. in Epist. ad Col. Hom. 9.

Audite obsecro seculares omnes, comparate vobis Biblia
Et Hom. 2. in Mat.

Et domi divina Biblia in manus sumite, & vilitatem in
eis positam, magno studio suscipite.

LLVNDAIN,
Printiedig gan FELIX KYNGSTON,
drwy awdurdod. 1631.

Ffacsimili o wyneb-ddalen a'r dyddiad wedi ei gywiro.

TO ALL THE WORTHY

and True-hearted Well-willers and *furtherers of the spiritual weale of Wales*, who haue put their helping hands and *hearts to that late, necessary, and worthy* worke of setting forth the Bible in *Welsh, in a small volume*: *The Authour of this welsh* treatise, wisheth Wisdoms Gift (as a gracious Recompence of Reward from the *Lord*) viz. *Length of daies, riches and* honor; with Eternall life which *is the gift of God through Iesus* Christ our Lord.

Amen.

HOnoured and beloued of all that know you, and the Truth, for the truth sake that dwelleth in you, as also for your (more then ordinary) loue vnto the truth, lately expressed in the furtherance thereof in the Welsh Language, among Welsh families, who neuer enioyed it before this time in the like manner and measure, who are greatly bound to

¶ blesse

blesse God for you, and to blesse the time that euer he put into your hearts to take that blessed course of sending home into their houses and families the Word of Life and Saluation, to bring them to life and saluation : The namelesse Author of this Welsh Treatise knowne vnto you all by name (though not vnto the world) dedicates this his little Booke vnto you all, though not by name, knowing that it is your ioy, that your names are written in the Booke of God, rather than in the books of men, such of you as vnderstand not the subiect, matter, and scope of this treatise (being in a language vnknowne vnto you) be pleased to vnderstand that it containeth that necessary and weighty duty of reading aud searching the Scriptures, grounded vpon the command of Christ. Ioh.5.39. *Search the Scriptures for in them ye thinke ye haue eternal life, &c.* and setteth forth the necessity imposed vpon all sorts, of searching the Scriptures, for the attaining of Eternall life, together with the transcendent authority, excellency, and vtility of the Scrip-

Scriptures aboue all other writings, as also the hainousnesse of the sinne of neglecting this search, with the fearefull punishment due to all that neglect it, discouering also the manner of right and profitable searchings, together with two generall Epistles written, the first to all the Ministers of Wales, the second, to all the common people thereof, containing sundry arguments and motiues to moue all the Ministers, to stirre vp their congregations to the buying and right searching of the Scriptures, and to moue their people to yeeld thereunto, answering all the obiections of all sorts of men (that could be remembred) obiected against the daily due search of Scriptures in families, by all sorts, all done familiarly, by way of questions and answeres, with as much breuity and perspicuity as could bee, all gathered principally out of the Scriptures themselues, together with collections of the principall things drawne out of the best Authors, who haue written (in sundry languages) of the same subiect. There is also annexed hereunto a short Cate-

 chisme,

chisme, containing the duties of parents and children, with domesticall prayers. May it please you therefore, honorable, worshipfull, and beloued, to vouchsafe the acceptance thereof, and as you haue beene lately pleased, after your great care, paines, and charges vndertaken, in procuring the printing of the *Welsh Bible*, to send it abroad into the country of *Wales*, so be pleased to send this *Welsh* booke after it, which may happily ouertake it, spurre it forward, yea, goe before it as an Harbinger into many houses and families, to prepare a roome for it, in their houses and in their hearts, and returne againe to giue that holy and blessed booke of God the meeting, by causing many so to doe, and to procure it welcome among many, who vnto this day, neuer gaue it entertainement into their hearts or houses; seeing that by this little booke they now vnderstand that the Bible now printed for them, is the booke of God, which he hath sent from heauen into this World, to bring them out of this world into heauen, by the dayly and due search thereof.

Sith

Sith the Lord in great mercy hath bin pleased to vse you as his instruments to prepare and conuey the Bread of life in a whole loafe into Wales ; oh that he would also be pleased to vse you as his instruments to send some skilfull Diuiders and faithfull Distributers of this spirituall Loafe, and Bread of Life, for children may perish for want of bread, with a whole loafe before them, if there be not some to diuide and distribute it vnto them in due season : Enquire after our estate this way, and accordingly pity our misery, in regard of our necessity, that (if you can doe any thing) you may helpe vs, that the blessings of many that are ready to perish may fall vpon you, be it so, O Lord, for the Lord Iesus sake, euen so be it.

He was worthy for whom he should doe this, for he loueth our nation, & hath built vs a Synagogue, Luc. 7.4.5.

It grieued them exceedingly, that there was come a man to seeke the welfare of the children of Israel. Neh. 2. 10.

The pronunciation of the Letters *in the British tongue.*

THe letters in the Brittish tongue, haue the same figure and fashion as they haue in English, and be in number as here vnderneath in the Alphabet appeareth.

A b c ch d dd e f ff g h i k l ll m n o p r s t th v u w y.

These be the vowels. a e i o u w y. These two vowels a w be mutable. The digthongs be these, and be pronounced with two sounds, after the very Greeke pronunciation.

Ae ai au aw ay	oe ow oy
ei ew	uw
ia ie io iw	wi wy

These letters be called consonants : b c d dd f ff g k l ll m n o p r s t th v.

A com-

A comparison of the pronounciation *of the letters in Welsh,* to the Greeke and Hebrew *Letters.*

A Is not vnlike of pronunciation to the Hebrewes *Aleph.*

B most entirely resembleth the nature of *Beth.*

C and *K* be not vnlike in sound vnto *Caph* and *Coph.*

Ch, chi, cheth and *caph,* with *raphe, be* of one sound.

D soundeth as *Daleth, Daghessata.*

Dd containeth the power but of one letter, and that of *Dhelta,* or of *Dhaleth,* not *Daggesset.*

E is much spoken after the sound of the vowels *Segol* or *Epsilon.*

F and *Beth* without the point *Dagges,* or the Greeke *Veta,* bee as one in sound.

ff, or *ph,* agree in pronounciation with the Greeke *phi,* or the Hebraick *phe,*

phe, not poynted with *Dages*.

G is sounded as *Gimel*, or the Dutch *g*.

H and th'aspiration *He*, bee equall in power.

I in euery poynt agreeth with the Greeke *Iota*.

L *Lamedh*, and *Lamdha*, disagree not in sound.

Ll counteruaileth *Lambda*, comming before *Iota*.

M. *N*, *Mem Nun*, and *My Ny* differ not in sound.

O and *Omega* shall sound as one.

P doth as well imitate *Phe* and *Phy* in sound, as in other conditions.

R hath a peculiar concinnity with *Rho*.

S *Samech* and *Sigma* may goe together well ynough for their tune.

T soundeth as *Teth* or *Taudagesset* in in the Hebrew.

Th hath the very sound of *Theta* or *Tau*, hauing no *Dages*.

V being consonant, soundeth as *Beth* without *Dages*, or as *Veta* doth.

V being a vowel, is read as *Kibuts*, and not much vnlike vnto *Ypsilon*.

Y hath the very sound of *Ypsilon*.

By *Edward Kyffin*.

Cynhwysiad y Ilyfran hwn.

YN gyntaf y rhag-ymadrodd at Eglwys-wyr y Cymru i'w hannog hwynt, i fod yn eiriol ar eu plwyfolion i brynu Biblau, ac i chwilio yr Scrythyrau, 1. *O herwydd gorchymmyn Crist.*

2. *Er mwyn llesâd y bobl â osodwyd tan eu gofal hwynt.*

3. *Er mwyn cael y cyssur, a'r glôd â ddigwydd iddynt os gallant ddwyn hynny i ben.*

2. *Yn ail llythyr yr Awdwr at y Cymru cyffredin, yn cynnwys deuddeg o resymmau i'w Cymmell oll i brynu Biblau, ac i Chwilio yr Scrythyrau.*

3. *Ymddiddannion rhwng y Carŵr a'r Cymro ynghylch chwilio yr Scrythyrau: ac yn y rhain chwêch o bethau*

buddiol i'w hystyried, sef.

1. *Pwy sydd i chwilio yr Scrythyrau?*

2. *Pa Scrythyrau â ddylid eu chwilio?*

3. *Pa brŷd y dylid eu chwilio?*

4. *Pa hŷd y dylid barhau yn chwilio?*

5. *Pa fudd i'w gael o'u Chwilio?*

6. *Pa fôdd yr iawn-chwilir yr Scrythyrau i gael budd oddi-wrthynt. Gan atteb y pethau sydd, gan bobl wrthnebus yn erbyn prynu Biblau chwilio yr Scrythyrau.*

4. *Yn bedwaredd Gweddi y Cymro am faddeuant, am esceuluso o honaw hyd yn hyn chwilio yr Scrythyrau, ac am ras o hyn allan i'w iawn chwillio hwynt yn ôl Gorchymyn Crist.*

5. *Gweddi yr Awdur dros y Cymru, ar drugarhau o'r Arglwydd wrthynt, a gostwng ey calonnau i gadw y gyfraith hon.*

6. *Boreuol a phrydnawnol weddi i'w harfer mewn teuluoedd.*

7. *Gweddi cyn bwyd, a diolchigarwch yn ol bwyd.*

Y rhag-ymadrodd at

Eglwys-wyr Cymru.

HA-wŷr frodyr, a thadau, Parchedig ac anwyl yn yr Arglwydd, y mae yn weddus i mi synnied hyn a'm danoch ôll, nad yw yn anwybod i chwi, ond eich bôd yn credu yn ddilys mai ewyllys Crist yw nid ar i chwi yn vnig either i'r hôll braidd y gwnaeth yr Yspryd glan chwi yn olygwyr arnynt, chwilio yr Scrythyrau. Act. 20. 28

Canys y mae y ddyled-swydd hon wedi ei yspyssu yn amlwg, ac mor gyffredin mewn amryw fannau o Air Duw, ac o'r Tadau dyscedyg gynt ac na ddychon nêb oddieithr Gwiliedyddion deillion fod yn anhysspys arni. Athro rhagorol yn nechreu yr oes hon â gasclodd allan o'r hên Dadau athrawaidd gynt, mor daer, ac mor ddifrifol oeddynt bawb yn, hamser, yn *Musc. loc. co. de sac. Scrip. Aug. Amb. Hier. Orig. Theoph. Chrys.*

Cymmell y cyffredin i fod yn gydnabyddus â Gair Duw, ac i'w fynych chwilio gan ; gynghori hefyd y Periglorion o'r amsroedd hynny i gynhyrfu, ac i fôd yn daer ar bawb tan eu gofal hwynt, i ymarfer ar ddyled-swydd grefyddol hon, yn eu tai eu hûn gartref, ym mysc eu teulu. A minneu (frodyr) gan ganlyn ar ôl y Seint Dwyfol hyn, â fyddaf (drwy eich cennad) cyn hyfed arnoch ag attolwg i chwi er mwyn Crist Iesu, er mwyn eneidiau eich praidd, ac er eich mwyn eich hûn fod yn eiriol ar eich plwyfolion, ar iddynt brynu Biblau bychain y rhai sy yr awr'hon drwy râs Duw a'i ragorol ymgeledd tu ag attom (y cyffelyb peth ni bu yn ein plîth erioed or blaen) yn aml yn dda'r newid arnynt, ac yn hawdd i'r tlawd eu cael, fel y gallo pob dyn anyscedig â dim athrylith dduwiol ynddo, o medr ddarllein ei iaith ei hûn (yr hyn â ddylei pawb ei fedru) gan fanwl chwilio Gair Duw, a bod yn hyspys ynddo. A hyn yr wyf fi yn ei attolwg i chwi.

1. Yn gyntaf, er mwyn Crist ; O her-

herwydd chwi â wyddoch mai hynny yw ei ewyllys ef, sef fôd i bawb o'i bobl ef tan eich gofal chwi fynych gyrchu at ei Air ef; myfyrio yn ei gyfraith ef ddyd a nôs, fel y byddo iddynt yn gannwyll i'w traed, ac yn llewyrch i'w llwybr; ac i chwithau fynegu hyn, au ddwyn ar góf iddynt beunydd, heb attal dim buddiol oddi-wrthynt, yn ôl esampl S. *Paul*: Os ymrowch gan hynny, i wneuthur ewyllys Crist, bydded ei gariad ef i'ch cymmell i gyflawni y ddyled orchymynnedig hon. Ac os bu nêb o honom or blaen esceulus, a difraw yn hyn o bêth, bydded pawb o honom o hyn allan diescealus, a gofalus; oblegit mawr fydd ein cyfrif ni yn anad eraill. Tebygol yw y buasai y ngwlâd Gymru yn nyddiau ein Tadau fwy o chwilio ar yr Scrythyrau nag a fu hyd yn hyn o'n hoes ni, pe buasei y Bugeiliaid ysprydol, neu y rhan fwyaf o honynt, mor grâff, mor ddiwyd, ac mor daer ag y dylasent i annog, i gymmell, i gynnyrfu y cyffredin bobl yn y ddyled-swydd anhepcor, ac angenrheidiol hon.

Psal. 1. 2. Psal. 119.

Act. 20. 26.

2. Yn ail er mwyn y bobl tan eich gofal chwi, byddwch daer arnynt am ddarparu iddynt eu hunain bôb vn ei lyfr ; gan ddwyn ar ddeall iddynt pa lesâd anrhaethol a ddigwddd o iawn ymarfer a Gair Duw. Fel y mae yn eglur wrth ystyried esampl gwŷr Berea y rhai yn ôl gwrando ar S. Paul yn Pregethu, drwy chwilio yr Scrythyrau â droed i ffydd Crist, ac â gadarnhaed ynddi. Pwy bynnac gan hynny o honoch chwi sydd yn ewyllysio y cyffelyb lwyddiant ysprydol i'ch plwyfolion, na fyddwch difraw, a dîog i'w cymmell hwynt i arfer y cyffelib foddion, a chyfryngau mal o wneuthur hyn yn gydwybodus yn ôl eich galwedigaeth, y galloch eich cadw eich
2 Tim. 4. 16 hûn ar sawl â wrandawant arnoch.

3. Er eich mwyn eich hûn ceisiwch ddwyn eich pobl i fod yn gydnabyddus a Gair Duw drwy fedru ei ddarllein yn eu tai eu hûn, a myfyrio arno gartref gyd a'u teulu : fel y byddo eu diwydrwydd hwynt yn gymmorth i chwi yn eich gweinidogaeth ; yn llawenydd hefyd, ac yn glôd os rhynga

bodd

bodd i Dduw roddi llwyddiant, a bendith ar eich gwaith.

I. yn gymmroth mewn amryw foddion.

1. Yn gyntaf, haws i chwi eu dwyn hwynt i wybodaeth iechydwriaeth, a Chynt y dyscant bob perthynas Duwioldeb os ymroant i gymmeryd poen i ddarllein Gair Duw, ac i fyfyrio arno. Haws yw i bôb mâth ar Athro ddyscu eraill, os bydd ganddynt lyfrau yn barod fel yr oedd gan wŷr Berea, i weled ynddynt, ac i ddwyn ar gof iddynt y gwersi, a ddyscir allan o honynt. Ac o herwydd hynny y parodd yr Arglwydd i'r Israeliaid fôd ei Air ef gŷd â hwynt yn barod gar llaw bôb amser, a bod o honynt yn hyspys ynddo. Ac y gorchymynnodd i Iosuah nad ymadawei llyfr y gyfraith o'i enau, eithr myfyria ynddo (eb efe) ddydd a nôs, fel y cadwech ar wneuthur yn ôl yr hyn ôll sydd scrifennedig ynddo: lle y mae yn eglur i'w weled sef oni bydd gennym lyfr cyfraith Dduw; oni byddwn hyspys ynddo, na allwn wneuthur yn ôl yr hyn âddyscir o honaw. Deu. 6. 8, 9, 10.

2. Pa-

2. Parottach fydd eich gwrandawyr i gredu y gwirionedd a draethoch iddynt pan welont a'u llygaid eu hûn, nad ydych yn cynnig dyscu iddynt ddim amgen ond gwirionedd Duw, fel y gwybu y Bereaid am S. Paul.

3. Yn drydydd; eu diwydrwydd hwy i geisio cyrhaeddyd gwybodaeth a fydd yn gymmorth mawr, ac yn hyfforddrwydd tueddol i chwithau i drîn, ac i borthi eich praidd. Canys o hynny y daw y Perchen-tŷ a'r penteulu i fedru dyscu eu plant a'u tylwyth gartref y ngwyddorion y ffydd; ac i ennyn yn eu cymmydogion bêth gwrês ewyllys-frŷd, ac awydd i ymgommio ynghylch Crefydd, ac i fyfyrio ar amryw byngciau o athrawiaeth yn ôl eu clywed allan o Air Duw yn yr Eglwys; yr hyn beth sydd yn helaethu gwybodaeth, y ngwaith y Gwenidog poenus.

4. Yn bedwaredd, hynod ac am lwg yw fôd gwybodaeth, zêl, a sancteiddrwydd llawer o'r Cyffredin bobl â iawn chwilio yr Scrythyrau yn hogi, ac yn blaen-llymmu llawer ar awydd-

fryd

fryd yr Eglwyswyr i fyned rhagddynt yn ddiwydiach, ac i gymmeryd mwy gofal, a phoen yn eu swydd a'u gwenidogaeth. Chwi â wyddoch pa gymmorth, ac hyfforddrwydd a gafodd Apollos gan Aquila, a Phrysyla: pa gyssur a ddûg Iethro i Moses? A pha gyngor duwiol a roddes Abigael i'r Brenhin Dafydd? Nid yw yn anwybod i chwi, frodyr, mai prifarfer Duw yw dangos ei nerth ei hûn drwy wendid dynion; a rhoddi i'r gwannaf ryw ddawn i gynnorthwyo y cryfaf.

5. I fyrhau i chwi, y gwrandawyr diwyd i chwilio yr Scrythyrau fyddant barod i ddadleu ym mhlaid eu gwenidogion yn erbyn eu gwrthwynebwyr, fel mil-wr yn taro ym mharti eu Capteniaid. Hŷf, ac hyderus y gallant fôd y nghweryl y gwirrionedd, pan fyddo ganddynt gleddyf yr yspryd, yr hwn yw Gair Duw yn arf parod yn erbyn dynion anwybodus, ac an-rashol pan ymosodant i wrthddywedyd, gan gablu y gwirionedd drwy resymmau dynol, a chwantau cnawdol. Canys bydd bŷth rhag-llaw, fel y bu erioed o'r

o'r blaen lle byddo gwenidogaeth Gair Duw ar gerdded yn hwylys, ymddadleu, ac ymbleidio ynghylch wir Grefydd, megis yr oedd rai gyd a'r
Act. 14 4. Apostolion, a rhai yn eu herbyn gyd a'r Iuddewon.

Wrth hyn chwi â welwch, frodyr anwyl, os medrwth ddwyn eich plwyfolion i brynu llyfrau Duw, fel y gallont chwilio yr Scrythyrau, chwi a'u dygwch drwy hynny i ddyscu llawer o athrawiaeth, a chynghorion hawdd e'u dyscu wrth ddarllein ar eu pennau eu hunain gartref: o'r hyn lleiaf chwi a'u dygwch hwynt i fod yn gydnabyddus ag Histori y traethawd; ac O hyn yn barottach eu deall, a'u côf i ddirnad, ac i ddwyn ganddynt pa athrawiaeth bynnac a glywant ei bregethu; ac a'i credant yn rhwyddach. Heb law hyn mawr yw'r llawenydd a'r cyshur â ddigwydd i'wch o'i plegit, yn y byd sydd, ac yn yr hwn a fydd, wrth ystyried y daioni â dderbyniant: o wrando arnoch chwi yn pregethu, a thrwy eu cyfarwyddyd yn yr Scrythyrau yn cymhwyso y pethau

thau hynny attynt eu hunain. Canys llawen, a hyfryd gan bôb Eglwyswr graslawn weled ei wrandawyr yn ofalus ac yn ddarbodus am iechydwriaeth eu heneidiau. Yn hyn yr oedd Paul, a Barnabas yn llawenychu. A mwy llawenydd na hyn (medd Ioan) nid oedd ganddo. Act. 11. 23. 3. Ioh. 4.

4. Yn bedwaredd er mwyn y glôd, a'r ggoniant a ddigwydd i chwi yn Eglwys Crist yn ei ddyfodiad ef, drwy fod yn ermigion ac yn beiriannau Duw i ennill eich praidd i gael cydnabyddiaeth a'r Pen-bugail Crist Iesu. Y cyfryw rai â ddygoch drwy eich dirfawr boen i'r pennod hwn, a fyddant i chwi yn goron, yn orfoledd, ac yn ogoniant. Canys yn y bŷd yma y nêb â ennillo eneidiau sydd ddoeth. Ac yn y bŷd â ddaw, yr Athrawon â ddiscleiriant fel discleirdeb y ffurfafen, a'r rhai â droant lawer i gyfiawnder, fyddant fel seir bŷth yn draggwydd. 1. Thes. 12. 19, 20. Diha. 11. 30. Dan. 12. 3.

Y

Y moddion a'r Cyfryngau i gyflawni hyn ydynt *yn Canlyn.*

YN gyntaf os mynnwch annog eraill i ddyfal chwilio Gair Duw, rhaid oedd i chwi eich hunain yn a nad dim fod yn esampl iddynt yn hyn o beth; sef drwy eich diwydrwydd yn eich Swydd dangos iddynt ar eich gweithred fod eich ewyllys chwi y nghrfraith yr Arglwydd, a'ch bôd yn
Pfal. 1. 2. myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd, a nôs; ac yna bydddwch wedi eich gosod ar hwyl i eiriol ar eriall, ac i'w cymmell i chwilio, ac i gasclu allan o Air Duw y cyffelib fudd, a llesâd ac â brofasoch
Preg. 12. 10 eich hûn fod iw gael ynddo. Chwiliodd y Pregethwr am eiriau cymmeradwy. Ac oni byddwch chwi yn trîn Gair duw yn ddiwŷd; ac yn astud, pa fodd yn iawn y gellwch chwi gynghori a chynyrfu eraill i astudio arno?

Mynych dros ben y mae dolur yn taro yn fy nghalon wrth weled, ac ysty-

ystyried y diffyg mawr a'r esceulusdra dybryd sydd yn ein plith ni Eglwyswyr cymru, o gymmeryd poen i ddyscu ein praidd yn gydwybodus, eisueu ymosod a llwyr-fryd calon i ddarllein, gynghori, ac i athrawiaethu. 1. Tim. 4. 13. Yr ydym ni ein hunain (lawer o honom) yn anghynefin a Gair cyfiawnder, ac am hymy yn anghyfarwydd, ac yn anghymen i gyfarwyddo eriall, y mae yn aml gweled yn ein plîth ni ynghymru Eglwys-wyr o ran eu dysceidiaeth yn ganmoladwy, a'i ymadrodd yn barabl-ddoeth ac etto yn anaml gweled mewn llawer goror or wlâd yr Scrifennydd wedi ei addyscu i deyrnas nef yn dwyn allan o'i dryssor Mat. 13 52. bethau newydd, a hên. Ie rhoddwch gennad imi, fy mrodyr anwyl, i ddywedyd wrthych (y peth sydd ddrwg gennif orfod iddywedyd) y gellir cael ym mhôb vn o Escobaethau Cymru ddeugain neu drugain o Eglwysi heb vn bregeth ynddynt ar y suliau hirddydd hâf, pan fo, sychaf y ffyrdd a chlaiaraf yr hin. A pha fodd y gallwn ni gymmell y Cyffredin i wnenthur y peth

y peth â esceulusswn ein hunain yn erbyn ein galwedigaeth, a'n cydwybod? nyd wyfi yn barnu ar nêb, oblegit *pawb a ddŵg ei faich ei hûn*, ac *sydd yn sefyll neu yn syrthio i'w Arglwydd ei hûn*; eithr dymuno yr wyf lwyddiant i Air Duw, a dyfod o bawb i wybodaeth y ygwirionedd. Gwae hwynt-hwy ryw ddydd rhai ni ddeffroant mewyn prŷd o swrthgwfc eu difraŵch i areilio ac i borthi praidd Crist â orchymynnwyd iw gofal, ac i fod yn siãpl iddynto astudrwydd yn chwilio yr Scrythyrau.

2. Yn ail, Da ydoedd, pan fo'm ni ein hunain yn pregethu. dewis, achymmeryd y cyfryw destyn i bregethu, arno, ac a berthyno yn gymmwys, ac yn bendant i ddangos i'n gwrandawyr angenrhaid y ddyled hon; sef mai peth an hepcor i bôb dyn gofalus am ei iechydwriaeth yw bôd yn ofalus hefyd am *chwilio yr Scrythyrau*. Ac i'm tŷbi, y mannau o Air Duw ar y cyfryw achosion yw y rhai hyn, a'u cyffelyb Ioshua. 1. 8. Deu. 17. 19. Psal. 1. 2. Act. 17. 11. Io. 5. 39. Diha. 23. 23. Dat. 1. 3. Mat. 22. 29.

3. Y

3. Y trydydd modd yw ymbil â Duw drwy weddi ar ryngyu bodd iddo dywalt ei fendith ar eich gwenidogaeth, gan roddi i'w bobl ewyllysgarwch, a gallu i gynyddu mewn gwybodaeth am Dduw, ac er mwyn hyn *i chwilio yr Scrythyrau*: canys *llawer â ddichon taer-weddi y cyfiawn.* Iam. 5. 16.

4. Yn bedwaredd, drwy fod eich hunain yn ofalus am ddarparu i'ch gwragedd, ac ich plant bôb vn ei lyfr bibl i'w ddwyn ganddo i'r Eglwys, ac i'w ddarllain gartref. Canys à ofalwn ni yn vnig am gael iddynt angen rheidiau eu cyrph, ac oni ofalwn ddim am eu heneidiau hwynt? a ddyscwn ni iddynt gelfyddodau bydol am bethau y bywyd yma, ac â esceuluswn eu dyscu i ofni Duw tu ag at gael y bywyd â bery byth? Chwi a wyddoch mai odid gweled yn lloygr, yn enwedig mewn Dinasoedd neu drefi; na gwraig, na mâb, na merch ie hyd yn oed y gwasanaethin, heb fedru darllain, ac heb lyfrau ganddynt yn yr Eglwys a chartref: A pha ham na wnawn ninnau y cyffelyb? Yn enwedig yr Eglwyswyr.

Ac nid gwiw i ni ddisgwil gallu gyrru eraill i wneuthur i'w teuluoedd y peth nis gwnawn ni i'n teulu ein hun oni *fedr vn lywodrathu ei dŷ ei hûn yn dda pa fodd y gofala efe am Eglwys Dduw* ? Bydded gan hynny esampl pôb vn o hon och chwi, fy mrodyr yn eich teulu ich hûn yn ganwyll i berchen-tai a Thadau eraill yn eu teulu hwythau.

Luc. 19.

5. Y pummed, ar môdd olaf i baratoi eich praidd i *chwilio yr Scrythyrau*, a llyfrau da eraill, yw gosod allan lyfrau newyddion o'ch poen, ach gwaith eich hûn, neu cyfiethu llyfrau o waith rhai dyscedig eraill, a'u gosod mewn print ; Ar gair oh yn abair i,r cyffredin bobl ewyllysio eu gweled, a'u darllein (canys hôff pôb newydd) pe na bai ddim amgen ond i gael gweled pa fâth ydynt, fel *Zacheus am weled Crist.* Cywilydd Eglwyswyr Cymru yw bod cymmaint o lyfrau da yn Saesonec, ac mewn ieithoedd eraill, a chyn lleied nifer yn Gymraec : yr hyn beth sydd argoel hynod mai llai yw eu gofal hwynt nac eraill, am eneidiau, eu pobl.

Oher-

O herwydd paham, attolygaf i'wch, frodyr, er mwyn gorchymmyn, a thrugareddau Duw, Porthwch braidd Duw yr hwn sydd tan eich llaw, ac ymgeleddwch hwynt, nid trwy gymmell, eithr yn ewyllysgar; nid er chwant budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn Arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Dduw, ond gan fôd yn esampl i'r praidd; A phan ymddango so y Penbugail, chwi â gewch dderbyn anniflannedig goron y Gogoniant: Amen, felly y byddo i chwi oll er mwyn Iesu. 1. Pet. 5. 2, 3, 4.

Eich Brawd, a'ch
Câr-wr a'ch câr
Di-enwog
Di-Enw.

Oh fy NVW, cofia hwynt Sydd yn halogi yr offeiriadeth, Neh. 13. 29. *ac yn peri ffieiddio offrwm yr Arglwydd,* 1 Sam. 2. 17.

At ei anwyl geraint a'i
gyd-wladwyr y Cyffredin
Gymru.

Annerch.

Y nghenedl anwyl a hôff, a'm gwîr garedigion y Nghrist Iesu, y mae ir dyrnaid bychan hwnnw O weddillion Cenedl-Gymru sydd yn cyfanneddu etto yn eu Gwaled ei hûn, lawer o achosion dirfawr, a dirfyng i ystyrieth, ac i gydnabod trugaredd Duw tu ag attynt o herwydd ei amryw ymgeledd. a'i ddaioni iddynt, eithur yn anad dim arall am ei Air Sanctaidd a'i scrythyrau cyssegredig i'w feddiannu. ac i'w fwynhau yn eich tafod-iaeth eich hûn, nid yn vnig er ys talm o flynyddoedd mewn llyfrau mawrion yn yr Eglwysi plwyfol, eithr yr awr'hon

awr'hon yn y dyddiau hyn wedi ei ddarparu a'i gymhwyso i'r eglwysi bychain sydd (neu a ddylei fod) yn eich tai eich hûn, a hynny mewyn llyfrau bychan eu prîs, yn gymmaint a bod yn hawdd i chwi yr awr'hon gael y peth oedd anhawdd gynt i'n henafiaid ni sef Gair Duw i'w ddarllein ym mhôb tŷ ; a hynny fyddei gyfrwng ac achlyssur cymmwys i gyflawni gorchymmyn Crist am chwilio yr Scrythyrau, *yr hwn orchymmyn sydd wedi ei eglurhau, a'i yspysyu yn fanawl mewn swrn o ymddiddanion sydd yn canlyn yn y llyfran hwn, os bydd gwiw gennych eu darllein. Ac i'ch cynnyrfu i hyn.* Rhuf. 16. 34. Phile. 2.

1. *Yn gyntaf ystyriwch pwy yw Awdur yr holl Scrythur lan, sef Duw Tad drwy ei fab Iesu, a'i Yspryd Glan.* Oblegit yr holl Scrythyrau (*medd S. Paul*) sydd wedi eu rhodyi drwy ysprydoliaeth Dduw. Nid drwy ewyllys dŷn (*heb S. Peter*) y daeth gynt Brophwydoliaeth, eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant, megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Yspryd Glân. *Gan hynny os bydd llawer o honoch barod a chwannog* 2. Tim. 3. 16. 1. Pet. 1. 21.

i brynu, ac i ddarllein llyfrau o ddychymmyg Dynion yn cynnwys ynddynt ddigrifwch, ac oferedd; byddwch ewyllysgarach i brynu llyfr Duw, drwy chwilio yr hwn y gellwch gael digrifwch ysprydol, a thragwyddol.

2. *Yn ail, i bwy y darparodd Duw ei lyfr hwn, ac at bwy y danfonwyd ef, sef i'r Etholedigion y rhai a ordeinwyd i fywyd tragywyddol.* Y pethau am-
Den. 29.29 lwg (medd Moses) a roddwyd i ni ac i'n plant hyd bŷth. *Nyd yn vnig i blant cenedl Abraham,* ond i bawb ac sydd yn ofni Duw yr anfonwyd Gair yr
Act. 13. 26 iechydwriaeth hon. *Vn o'r hên Dadan*
Greg. epist. 84. *sydd yn galw y Bibl yn llythyr wedy ei anfon oddi-wrth yr holl-alluog Dduw iw greaduriaid. Gan i Dduw scrifennu llythyr, a'i anfon i chwi os ydych yn ofni Duw, rhag ei anfodloni ef, neu yn ei garu am ei garedigrwydd a'i ddaioni, derbyniwch y llythyr a anfonodd Duw o'r nefoedd i chwi ac i'ch plant.*

3. *Yn drydydd. I ba bêth yr scrifennodd Duw y llyfr hwn attoch? Onid i gael gennych ddyscu allan o honaw adnabod ewyllys eich Tad nefol, drwy gym-*

gymmeryd hamdden, a phoen yn i ddarllen a myfyrio ynddo. Pa bethan bynnac a scrifennwyd or blaen (*medd S. Paul*) er addysc i in yr scrifennwyd. Ruf. 15. 4.
Ac mewn man arall, yr scrythur, sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyoeddi, i 2. Tim. 3. 16.
geryddu, ac i hyfforddi mewyn cyfiawnder, fel y byddo dŷn Duw wedi Esay. 44. 13
ei berffeithio i bob gweithred dda. Ier. 6. 45.
Ac i gyflowni hynny pawb â ddyscir gan Dduw, *sef pawb ac sydd yn eiddo Duw, ac er mwyn hyn y Danfonodd iddynt ei lyfr nid i'w ddangos yn vnig, nac i'w daflau mewn conglau new i'w ddwyn tan gesseiliau, neu i orwedd mewn ffenestri, eithr i* chwilio ynddo yr scrythyrau *fel y dyscoch o honaw* ewyllys Ruf. 12. 2.
Duw yr hwn sydd dda, a chymmeradwy a pherffaith.

4. Yn *bedwerydd, y mae llyfr Duw yn cynnwys ynddo yr scrythur lan, ac am hynny o herwydd ei odidawgrwydd yn rhagori llawer ar hôll lyfrau y bŷd. Oblegit hwn a scrifennwyd a bŷs Duw, heb ynddo ddim llygradwy, dim anwiredd, ond purdeb, a gwirionedd. Pe llefarwn a thafodau dynion, ac Angelion ni*

fedrwn, ni allwn fynegi yn deilwng gan moliaeth llyfr Duw. Hwn, ac nid yr vn arall a orchymynnodd yr Arglwydd i
Iosui. 1. *Iosuah* nad ymadawei allan o'i enau ef. *A hwn a fyn y Prophwyd sanctaidd i'r dŷn Duwiol* fyfyrio ynddo ddydd, a
Psal. 12. nos. Y *mae llyfrau eraill da, a Duwiol a osodwyd allan yn ddiweddar o amser yn ein plith ni, sef* y llwylbr hyffordd i'r nefoedd, *ac* ymarfer O Dduwioldeb; *a da oedd waith y cyfiethwyr, a a Duw a dalo iddynt, ac a fendithio eu gwaith; eithr pa ddaioni bynnac sydd yn yr rheini, o'r llyfr hwn y tynnwyd ef allan, ac am hynny nid ydynt hwy er eu bod yn dda, i'w cyffelybu i hwn. Da yw? duwiolfryd y rhai o honoch a brynasant, ac a chwiliant yr rheini, ond gwell y gwnant o cheisiant hwn hefyd.*

5. Yn *bummed, gorchymmyn Duw Tad, ai fab Iesu yw* chwilio yr Scrythyrau *fel y clywsoch yn fynych or blaen, ac ni allwch chwi esceuluso vfyddhau i'r gorchymmyn na byddoch yn euog o'i dorri; ac ai peth yscafn yn eich golwg chwi yw anufyddod i Dduw?*

6. Yn *chewched, ystyriwch esamplau y rhai*

y rhai ydynt ofalus, a diwyd i fyfyrio yngair Duw. Mi a goffais i chwi or blaen am wŷr Berea Yn *nyddiau y Parchedig Dad S. Ierom yr oedd ymryson Duwiol, ac ymorchestu ymhlith Cristianogion pa sawl o honynt a ddyscei fwyaf or scrythyrau, ac a fedrei ei adrodd ar ei Dafodleferydd. Ym mysc y Saeson ni chewch, ond odid, nêb na fedro ddarllain; ac hyd yn oed meibion, a merched ir graddau gwaelaf o honynt sef eurychod, a chowperiaid, ar cyffelyb a'u Biblau ganddynt, ac yn hyspys ynddynt: Ac yr awrhon gan fod gennym ni gystal môdd, ac achlussur a hwythau, ôch Dduw na chymmerem ni wrth eu esamplau hwy, y cyffelyb helynt a gofal am iechawdwriaeth ein heneidiau.*

Act. 17. 11.

Ierom. in Psal. 133.

Yn *seithfed, cofiwch addewid Duw yn ei Air ir hwn a fyfyrio yn ei gyfraith ef.* Canys efe fydd fel pren â blanner ar lan afonydd dyfroedd yr hwn a rŷdd ei ffrwyth yn ei bryd, a'i ddalen ni wywa, a phêth bynnac â wnel efe â lwydda. *A ewyllysiwch chwi gael y fendith hon, ar llwyddiant, gwnewch chwithau felly: myfiriwch ynghyfraith yr Ar-*

Psal. 1. 3.

Arglwydd, ac yma disgwiliwch wrtho ef. Ni thwylla Duw ei obeithiwr.

8. Yn *wythfed, lle y byddo Gair Duw yn cael ei fawrhau, ac yn gymmeradwy yna y mae bendith yr Arglwydd yn dilyn y bobl hynny mewyn pethau ysprydol, a bydol. Wrth drîn Gair yr Arglwydd y deallodd y Breinu Dafydd fwy na'r henuriaid. Pan aeth Arch cyfammod yr Arglwydd at Obed-edom y bendithywyd ei dŷ ef a phob peth a feddei. Ac felly y gwna Duw a chwithau, os mawrhewch ei Air ef a'i gymmeryd i chwi yn gyfarwyddyd.*

Psal. 119. 98. &c.

I. Sam. 6. 12.

9. Yn *nawfed, clôd, a chanmoliaeth a gewch gan Dduw ei hûn os ymorolwch am drîn ei Air ef yn ddyfal fel y cafoddgwŷr Bereya eu galw* yn foneddigeiddiach na'r rhai o Thessalonica, am iddynt hwy dderbyn y Gair a phob parodrwydd meddwl, *a chyd a'r Gair cael* y doethineb sydd oddiuchod, yr hwn sydd bur, a boneddigaidd. *Fe ddywedir ar watwor am danom ni y Cymru, y mynnei pawb o honom eu cyfrif yn foneddigion, dymma'r môdd i fod yn wir foneddig, sef ymroddi i chwilio*

Act. 17.11.

Iam. 3. 17.

chwilio Gair gr Arglwydd, ac i fyw wrtho, Canys felly y cyrhaeddwn y bendefigaeth orchestol o fod yn blant i Dduw, ac yn frodyr i Grist Iesu; mwy boneddsgrwydd nac a ddichon y bŷd ei roddi i ni, a mwy clôd na'n canmol gan ddymion, yw cael gan Dduw ein canmol. Ruf. 2. *vlt.*

10. Yn *ddegfed, esceuluso chwilio Gair Duw yw esceuluso gorchymmyn Crist, a dirmygu ei Air. Gwrandewch pa Gwynfan y mae yr Arglwydd yn erbyn dirmygwyr yr Scrythyrau*: Mi â scrifennais iddynt (medd yr Arglwydd) bethau mawrion fy nghyfraith, ac fel dieithrbeth ŷ cyfrifwyd, *megis pethau nid oeddynt yn perthyn iddynt hwy. Am hynny y mae yr Arglwydd, yn fynych yn bygwth y cyfryw rai difraw.* Yr hwn a ddirmygo y Gair, addifethir medd *Salomon* y sawl a!m dirmygo i (*medd Crist*) ac ni dderbyn fy ngeiriau, y mae iddo ef vn a'i barn: y gair â ddywedais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf. *Felly bod yn ddifatter am Air Duw yw dirmygu Crist, ac ar y cyfryw vn y daw dial; yr hwn fel y galloch chwi,* Io. 12. 48. Hos. 8. 12. Diha. 13. 13. Io. 12. 48.

chwi, frodyr anwyl, ddiangc rhagddo attolwg i'wch gofelwch am gyrchu at ei Air ef, ai chwilio.

11. Yn *vnfed-arddêg, o herwydd y dedwyddwch diball a ddigwydd i'ch eneidiau. Canys yr Scrythur lan sydd megis gardd Eden, neu Baradwys daiarol, ac wrth ddarllein neu fyfyrio ar y Gair y bydd dŷn y nghanol yr ardd megis yn yn ymddiddan a Duw fel yr oedd Adda gynt, ac yn bwyta o bren gwybodaeth da, a drwg yn ddiorafun, ie ac yn* cael bw-

Datc. 2. 7. ytta o bren y bywyd yr hwn sydd y nghanol Paradwys Duw. *Ar pren hwnnw yw Crist, a'i ffrwyth ef sydd fe-*

Can. 2. 3. *lus y ngenau y ffyddloniaid, a da ganddynt eistedd tan ei gyscod ef.*

Yn *yr Ardd honno, y mae cael pôb pren dymunol i'r golwg, a daionus yn fwyd, sef ffrwyth ysprydol i borthi yr enaid.* Yn *yr Ardd hon* (*sef yn yr Scrythur lân*) *y mae afon hyfrydwch, a ffynnon y bywyd, a ffynnonnau iechydwriaeth, o chwilio yr rhain y cewch ddwfr i'ch diodi o afon hyfrydwch Duw*: pwy bynnac â yfo o'r dwfr hwn ni sycheda yn dragywydd.

Ie

Ie yn hytrach wrth chwilio Gair Duw y mae dŷn yn y Paradwys nefol, wedi megis ei gippio gŷd â S. Paul i'r drydydd ffurfafen, ac i glywed geiriau anrhaethadwy. I weled Duw Tâd, ai fâb Iesu, y Patrierch, y Prophwydi, ar Apostolion : canis yngair Duw y mae ymddiddan â hwynt, a gweled helynt eu buched, ac o hyn y cânt mwy o lawenydd, nac â ddichon y byd ei osod ger eu bron. 2. Col. 12.

12. Yn *ddeu ddegfed,* chwiliwch yr Scrythyrau canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol : *nid yn vnig cyssur i'ch eneidiau yn y byd yma, ond tragwyddol ddiddanwch yn y byd a ddaw.*

Gan hynny chwychwi ddynion ieuaingc, cofiwch eich Creawdwr yn nyddiau eich ieuengtid' *a chofiwch* pa fodd y glânhâ llangc ei lwybr, sef wrth ymgadw yn ol Gair Duw. Pre. 12. 1.

Chwy-chwi bobl hĕn : ac oedrannus ; yrhai a esceulusasoch hyd yn hyn ymorol am Air Duw, madws i chwi brynu llyfruau, a chwilio yr Scrythyrau gau weled mai hon yw'r ffordd a osodod

Duw

Duw i chwi i gyrhaeddyd Iechydwriaeth.

Ond cywilydd i ddyniou oedrannus weled plantos a chanddynt mwy o wybodaeth yngwasanaeth Duw na hwynt hwy?

1. Cor. 14. O frodyr, na fyddwch fechgin mewn deall, *canys felly y bu llawer o honoch hyd yn hyn: eithr ysttyriwch eiriau yr Arglwydd drwy'r Prophwyd.* Fy mhobl

Hos. 4. 6. â ddifethir o eisieu gwybodaeth, *Achwyn ac escus cymru o'r blaen oedd hyn, nad oedd llyfrau i'w cael am arian, ac am y rhai a oeddynt, drudion oeddynt, ac anhawdd i'r tlawd eu cyrhaeddyd, ond yr awrhon torrwyd ymmaith yr escus hwnnw; y mae llyfrau ddigon i'w cael, a newid fawr arnynt: ystyriwch, fy anwyl wlad-wyr, ar yr holl bethau hyn, a'r Arglwydd a roddo i chwi ddeall ym mhob peth angen rheidiol i iechydwriaeth eich eneidiau: Amen, Amen.*

Eich Câr-wr iw
orchymmyn yn yr
Arglwydd Iesu:

Na

Na ymadawed llyfr y Gyfraith hon oth enau, eythr Myfyrya ynddo ddydd a nos, fel y cedwych ar wneuthur yn ol yr hyn holl sydd scrifenedig ynddo canys yno i llwyddi yn dy ffyrdd, ac yna y ffyni. Iosh. 1. 8.

Nec solum vobis sufficiat quod in Ecclesia divinas lectiones auditis, sed etiam in domibus vestris, aut ipsi legite aut alios legentes requirite; & libenter audite Aug. de Temp. Scr. 54.

Pa ham y bydd gwerth yn llaw y'r ffol i berchennogi doethineb, ac yntau heb galon gantho. Diha. 17. 16.

Mi a Scrifennais iddynt bethau mawrion fynghyfraith, ac fel diethr-bethau y cyfrifwyd hwynt: Hose. 8. 12.

Ym-

Ymddiddanion rhwng Ca-
rwr ar Cymro, ynghylch gor-
chymmyn Crist am chwilio
yr Scrythyrau.

Ioh. 5. 39.

Chwiliwch yr Scrythyrau:
Canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol, a hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danafi.

Cymro.

SHwy-chwi gâr-ŵr y cymru ydych daer iawn arnom yn eich llythyr o'r blaen am brynu Biblau, *a chwilio yr Scrythyrau*, gan ddangos fod yn hawdd

hawdd eu cael, ac yn yscafn eu prîs yn y dyddiau hyn: rhoddwch gennad i mi, attolwg, i ofyn i chwi rai cwestinau y nghylch *chwilio yr Scrythyrau*, ac o gellwch drwy resymmau hygoel, ac ansiommedig brofi â pheri i mi goelio fod hynny yn Ddyled angenrheidiol i bob Cristion, myfi drosof fy hûn, ac yn enw pob Cymro diledryw, a ddiolchaf i chwi am eich cyngor Duwiol, ac a wnâf fyngoreu drwy râs Duw, i wneythur Denfydd o'ch athrawiaeth.

Y Car-wr.

Yr ydwyf yn ewyllys-gar yn ol y gallu a roddes Duw i mi, i roddi i chwi atteb am bob questiwn (buddiol) â ofynuoch y nghylch y peth hyn. A da iawn gennif eich gweled mor dueddol, ac mor rhwydd i ymddadleu. Ynghylch Gair Duw. Peth anfynych ei weled yn ein gwlâd ni yw ymgommio am fatterion ysprydol, ac iechydwriaeth eneidiau.

Cymro.

Gwir yw hynny etto er na bu ym mysc cymru nemmawr arfer o flino eu

pennau, na'u meddyliau hyd yn hyn ynghylch yr Scrythyrau, etto madws i ni bellach ymorol am ddiddanwch ein eineidiau drwy gyrchu at Air Duw, fel i'n dyscasoch yn eich llythyr drwy amryw resymmau, denfydd-fawr; megis yno y mae i'w weled yn eglur, ac yn helaeth.

Car-wr.

Na atto Duw i mi Scrifennu attoch ddim ond gwirionedd. A llawen gennif eich bod mor hyrwydd i ddal sulw ac ystyriaeth y peth a Scrifcnais: a gobeithio yr wyf nad yw ofer fy ngwaith i chwi nag i neb â wir ewllysio iechyd i'w enaid.

Cymro.

Myfi â wn gael peth daioni eusus oddi-wrth eich llafur-waith chwi yn eich llythur; a gobeithio yr wyf cael etto lesâd ychwaneg oddiwrth yr ymddiddanion hyn, gan eich bod morf wyn ac ym resymmu a mi y nghylch y peth nid yw etto eglur, a hyspys i mi, nac i lawer o'm Gwlâd-wŷr â ewyllysient wybodaeth o'r gwirionedd iachwyawl.

Carwr.

Carwr.

I Dduw y byddo'r diolch am y daioni a gawsoch, ac ar Dduw y gweddiaf ar gael o honoch ychwaneg drwy yr ymddiddanion hyn yn ol ewyllys eich calon, a'ch gobaith: Dechreuwch a gofynwch a'r Arglwydd a'ch attebo drwy eu gennad-wr-gwael yn ol ei Air scrifenedig yn yr Scrythyrau.

Cymro.

Yn gyntaf pêth, dangoswch i mi yn eglur or Scrythrau, i bwy y mae Crist yn gorchymmyn chwilio yr Scrythyrau.

Car-wr.

I bawb oll heb ddieithro, na neillduo nêb mwy na'i gilydd, sef i'r Tywysog *Iosuah,* ac i'r Brenin *Saul,* ac iw wenidog *Timothi*: Ac yn y rhai hyn, a than eu henw hwynt' i holl dywysogion, Bren hinoedd, a Gwenidogion Duw yn y bŷd. heb law hyn at dadau, a gwŷr ieuaingc, at blant a rhai bychain yr Scrifennodd yr yspryd glân drwy eu Efangylwr Ioan, diammeu ar ddarllein o honynt, ac ystyried o'r pethau

Ios. 1. 8.

Deu. 17.19.

1. Tim. 4. 13.

1. Io. 2. 14.

thau â scrifenuwyd attynt. *Y pethau*
Deu. 29. 29. *amlwg, aroddwyd i ni* (*medd Moses*) *ac i'n plant hyd byth, fel y* gwelwn wrth eiriau y gyfraith, wrth hyn eglur yw o'r Scrythyrau, mai ewyllys Duw yw i Swyddogion, a Gweinidogion i Dadau, ac i blant, i hên ac i ieuaingc chwilio yr Scrythyrau. Ac er bod y gorchymmyn hwn wedi ei roddi, yn gyntaf i'r Iuddewon gwrandawyr
Io. 5. 39. Grist; etto y mae yn cyrhaeddyd pawb oll hefyd yn gystal Iuddewon a chenedloedd. Megis ac y dylei bawb wilio; *yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthych chwi, yr ydwyf yn ei ddywedyd*
Ioh. 13. 37. *wrth bawb, gwiliwch*: felly y dylei bawb cywilio.

Cymro.

Wrth hyn y mae yn gredadwy mai ewyllys Duw yw nid yn Vnig i'r Eglwys-wyr a'r dyscedig ond i bob mâth ar ddyn, chwilio yr Scrythyrau, i'r llafur-wr, ar crefl-wr, î'r Saer, a'r gwŷdd ar crŷdd; i'r pan-wr, a'r gôf, a'r taeliwr, i'r siop-wr, a'r eurych, ie i bôb grâdd o ddŷn, er gwaeled fyddo'r gŵr, a'i greft (os gwnâ yn ol ewyllys Duw)

Duw) chwilio yr Scrythyrau. Canys y mae eneidiau dynion gwael issel-radd mor werthfawr ger bron Duw ac ydyw eneidiau y gallhog. Ar anrhydueddus: a'r vn rhyw foddion, a chyfryngau â osododd Duw i achub y naill fel y llall, nid amgen na gwybodaeth o'i Air, yr hwn sy raid ei chwilio.

Cymro.

Eithr bêth am wragedd, hên ac ieuaingc Aai rhaid yw i rheini gymmyrhedd yngair Duw.

Car-wr.

Rhaid, canys yno y gosododd yr, Arglwydd ddy'led gwragedd yn gystadl a gwŷr tu ag att Dduw, a dynion. *Rhaid yw i hen wragedd ymddwyn yn sanctaidd a rhoddi athrawiaeth o ddaioni i'r gwragedd ieuaingc.* A pha le y cânt wybodaeth o hyn, oddieythr oddi-wrth Air Duw. Tit. 2. 3.

Cymro.

A ellwch chwi brofi fôd y gwragedd gynt yn arfer Darllein yr Scrythyrau? ac yn hyspys ynddynt?

Car-wr.

Gallaf yn hawdd, Canys fel y daeth

boneddigion Bereya felly y daeth y Groegeshau parchedig i gredu drwy ganlyn eu hôl hwynt wrth wrando a'r S. Paul yn pregethu, ac o chwilio yr Scrythyrau, â oedd y pethau hyn felly.

Act. 17. 11. Ac oni buasei *Eunice* yn dra cydnabyddus a Gair Duw, pa fodd y gyllasei hi ddyscu i'w mab Timothi *wybod yr*

2. Tim. 13. 15. *Scrythyr lân er ein fachgen?* Gwŷr a gwragedd yr *vn ydynt ynghrist Iesu*;

Gal. 3. 28. Act. 10. gyd ag ef nid oes na gwryw, na benyw; nid yw efe yn derbyn wyneb neb, ond pawb ar a'i gwasanaetho ef yn ôl ei air sydd gymmeradwy ganddo.

Cymro.

Gan mai ewyllys Duw yw i bôb mâth, ar ddynon chwilio yr Scrythyrau. Bellach moeswch glywed pa Scrythyrau â ewyllysia Duw eu chwilio?

Car-wir.

Yr hôll Scrythur lân â chwilir, y Testament hên, a'r newydd o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Datcuddiad Ioan. *Pa bethau bynnac a scrifennwyd o'r blaen* (*medd S. Paul*) *er addysc i ni yr Scri-*

Scrifennwyd. Ac (eb yr vn Apostol) *yr holl Scrythyrau sydd wedi eu rhoddi drwy ysprydoliaeth Dduw ac yn fuddiol i athrawraethu, i argyoeddi, i geryddu, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith, &c.* Os i bawb, ac er addysc i bawb, ac yn fuddiol i bawb y rhoddwyd yr Scrythyrau, pawb gan hynny â ddylei eu chwilio hwynt ond yn enwedig y dylid chwilio yn fynychach ac yn fanylach y cyfryw fannau o Air Duw ac â berthyn yn briodol, ac yn gymmwys i bôb dŷn er mwy o fudd, a llesâd iddo. Ruf. 15. 4.

Cymro.

Gadewch i'r pethau hyn fod felly; etto attebwch fi ym mhellach; â oes Scrythyrau eraill, neu lyfrau yn y bŷd â ddylid ei chwilio onid llyfr Duw sef y Bibl?

Car-wr.

Yr wyf fi yn hyn o bêth o'r vn feddwl a *Luther* gynt: sef pe bai'r hóll bethau â gynnwys yr Scrythyrau yn scrifenedig y nghalonnau Cristiannogion fel y deallent hwynt, ac y gallent

wneuthur iawn ddefnydd o honynt ni byddei ddim niwed er bod pôb llyfrau eraill yn danllwyth o dan. Canys digon yw'r Scrythur lân yn vnig i *wneuthur dyn Duw yn berffaith i bob gweithred dda; ac yn ddoeth i iechydwriaeth*, a pha ddaioni y chwanec a chwenychech i'ch enaid? Eithr yn gymmaint ac na all pawb drwy chwilio Gair Duw (gwnaent eu gorau) gyrhaeddyd cael allan holl ddirgel a dyfn bethau yr Arglwydd cynnwysedig yn yr Scrythyrau, er budd a llesad iddynt. Gwelodd Duw yn dda roddi donniau rhagorol i rai i chwilo yn ddyfnach nac eraill, a thrwy eu dirfawr boen casclu, a gosod ar gyhoedd dryshorau godidoccach, nid yn vnig yn eu pregethau, ond hefyd mewn llyfrau; sef y cyfryw bethau ac na allai y bobl gyffredin (drwy chwilio) eu cael allan. O hyn y mae cymmaint o wybodaeth yn lluosogi ym mysc Saeson yn Lloegr, y rhai ydynt ddiwyd tros ben i brynu llyfrau Duwioll eraill, ac yn cael oddi-wrthynt gymmorth (nid bychan) i ddeall yr Scrythyrau. A'r cyffelyb

cyffelyb peth a ddylem ninnau ei wneuthur, gan geisio i ni y fath lyfrau sydd i'w cael yn Gymraec; rhai bychain yn cynnwys ynddynt ar fyrr, wyddorion y ffydd, a phyngciau angenrheidiol eu gwybod: eraill dyfnach eu ystyriaith, ac ynddynt mwy o bwys; sef bwyd crŷf, ac nid llaeth fwyd fel y dywed yr Apostol: o'r ddau fath hyn a'r lyfrau y mae syrnyn wedi eu gosod allan yn ddiweeddar; fel nad oes heddyw y cyfryw ddiffyg ac ydoedd gynt y nghymry o lyfrau da yn dyscu gwybodaeth o Dduw, oni bydd y bai yn fawr arnom ni, eisieu eu prynu a'u chwilio. Mawr yw yn ddi-wad y llawnder a'r amldra llyfrau yn saesonec a nifer anneirif a brynir bob blwyddyn gan y cyffredin bobl; yr hyn sydd yn arddangos gofal duwiol yr eglwyswyr am eu praidd, a darbodrwydd y bobl am eu iechydwriaeth: nid wyf fi yn ewyllysio gwradwyddo ein bugeiliaid ni na'n pobl am eu hesceulusdra, a'u diddarbodrwydd yn hyn o beth.

Cymro.

Gobeithio y bydd llawer o'r Cym-

ru

ru mor barod i brynu iddynt lyfr Duw, a'r llyfrau eraill hefyd, ac oedd yr Awduron, a'r Goreugwyr daionus a gymmerasant boen a chost wrthynt i'w darparu ar eu medr. Ond megis y dangosasoch i mi i bwy y perthyn chwilio yr Scrythyrau, a pha Scrythyrau sydd iw chwilio; felly dangoswch i mi, attolwg pa brŷd y dylem ddechreu chwilio yr Scrythyrau.

Car-wr.

Goref pa gyntaf, pan oeddych yn blant bychain y dylesych ddechreu sugno o ddwyfron y Briod-ferch, sef yr Eglwys, o'r hên Destament ac o'r newydd *ddidwyll laeth y gair fel y gallesych gynnyddu mewn Gras a gwybodaeth* megis mewn corpholedd. Am hynny y gorchymyn Duw *i'r Tadau yspysu ei eiriau ef i'w plant*: Nos a boreu, a'u meithrin hwynt yn addysc, ac athrawiaeth yr Arglwydd; yr hwn addysc, ac athrawiaeth sydd i blant i'w gael yn yr Scrythyrau.

Esay.38.19
Deut.6.6.7

Cymro.

Mi a welaf mai felly y dylei fod, *fel y perffrithier moliant i Dduw o enau* plant,

plant, ac y *cofiont eu creawdwr yn nyddiau eu ieuengtid.* Eithr ni ddyscodd fy nhad i mi, nac i'm brodyr, nac i'm chwiorydd ddarllein Gair Duw, na'i chwilio. Ond y mae yn fy mrŷd i o hyn allan, drwy ras Duw gymmeryd mwy gofal a'm fy enaid, ac am eneidiau fy mhlant nac a gymmerais hyd yn hyn er pan i'm ganed.

Cymro.

Yr Arglwydd â gynhalio rhag-llaw y meddylfryd Duwiol hwnnw yn eich calon er daioni i chwi ac i'ch plant; eithr dangoswch i mi bellach, ar ba ddyddiau, neu amseroedd y mae yn ddyledus arnom chwilio yr Scrythyrau.

Car-wr.

Yr Arglwydd ei hûn â ddengys i chwi pa brŷd y dylid gwneuthuthur y gwasanaeth hwn, sef dydd a nos fel *Iosuah.* beunydd fel gwŷr *Bereya*; yn ddibaid fel *Dafyd,* yn ddidor fel *deuddeg-llwyth Israel.* Oblegit cyn rheitue'd yw i'r enaid gael ei ym borth ys prydol beunydd, nos a boreu, ac i'r corph ei ymborth corphorol.

Iosh. 11. 8. Psal. 1. 2. Act. 17.11. Psal. 119. 97. Act. 26. 7.

Cymro.

Cymro.

Bellach mynegwch i mi pa hŷd y mae yn rhaid parhau yn chwilio yr Scrythyrau ?

Car-wr.

Tra parhao enaid a chorph y nghŷd, nid amgen holl ddyddiau eich bywyd. Y peth â orchymyn Duw i'r Brenin â orchymmyn efe hefyd i'r gwerin, sef *darllein llyfr ei gyfraith ef holl ddyddiau ei fywyd.* Canys pe byddei dyn yn cael byw yn y byd hwn oedran *Methuselah* sef naw-cant, a naw a thrugain o flynyddoedd, gan barhau yn oestadol yn chwilio, ac yn darllein ddydd, a nos ; etto fyddei ryw bêth buddiol i chwilio a'm dano. Yn y dydd diweddaf ; naill ai cyngor a'i cerydd, a'i cyssur, a'i pob vn canys rhaid yw i ni wrthynt tra fo'm yn y byd hwn ; ni allwn yn iawn fod hebddynt vn dydd ; ac er hyn ni bydd ein gwybodaeth ond am herffaith, ac o ran, tra fyddom yn y bywyd yma.

Deut. 17. 19.

1. Cor. 13. 9.

Cymro.

Eithr pa fudd sydd i'w gael drwy barhau yn y gwaith hwn mor astud, a chwilio

a chwilio yr Scrythyrau bob dydd?

Car-wr.

Amryw fendithion Duw yn y byd yma, a chyflwr gwyndfyedic yn y byd â ddaw, fel y dangofais o'r blaen ar y dechreu: megis pe baech wedi eich symmud or bŷd, nid yn ving i ddaiarol Baradwys Duw, ond i'w Baradwys nefol, i'w weled ef a'i Seintiau, ac i gael cymdeithas, ac ymddiddan â hwynt. Canys y maent hwy etto yn llefarau yn yr Scrythyrau, megis y dengys Crist yn eglur drwy eiriau *Abraham* wrth y glŵth goludog ynghylch ei ddesyfiad dros ei frodyr; sef y mae ganddynt *Moses*, a'r *prophwydi*, gwrandawant arnynt hwy, sef yn llefaru yn yr scrythyrau er eu bod lawer oes cyn Crist, wedi mynyd i'r nêf. Felly y mae gan y sawl a ddarllenant Air Duw nid yn vnic *Moses* a'r *Propbwydi*, ond Crist hefyd, a'r Apostolion i wrando arnynt, ac i gasclu llesad mawr oddiwrthynt, fel pe baent yn eu mysc yn bresennol ar y ddayar. Luc. 16. 29.

Cymro.

A phêth ychwanec gyd â hyn â geir

geir o drin Gair Duw ?

Car-wr.

Dau beth gorchestol.

Yn gyntaf, cydnabyddiaeth â Christ. Canys yr Scrythyrau sydd yn
Gen.73. 15 testiolaethu am Grist ac yn ei egluro
Deut. 18. 15. ef, i gael ei adnabod. Y nghaniadau Salomon y mae Crist yn ymddangos
Esa. 9. 6, 7. i'w Eglwys, ac yn ymddiddan â hi.
Esa. 53. Pan gollodd Crist gan Ioseph, a'i fam,
Can. 28. yn ôl chwilio am dano dridiau drwy ofal, a gofid, pa le y caed ef ar y diwedd ond *yn y deml yn eistedd y nghanol y*
Luc. 2. *Doctoriaid yn gwrando arnynt, ac yn ymholi â hwynt.* Allan o'r Scrythyrau nid yw Crist yn ymddangos, eithr ceifiwch ef yn y Deml, ar Eglwys, ac ym mhlith y dyscedyg yn ei Air ef, ac yno
Ier. 29. 13. chwi a'i cewch pan ei ceisioch ef a'ch holl galon. Ac o chewch vnwaith gydnabyddiaeth â Christ, a gafael arno drwy ffydd fywiol, iachwyawl, cewch gaffaeliad mawr. Canys cewch gyd
Ruf. 8. 32. ag ef bôp pêth hefyd. O'i gyflawnder
Io. 1. 16. ef y cewch *ras am ras.* Pwy bynnac nid yw gydnabyddus a'r Scrythyrau, nid yw chwaith gydnabyddus â Crist :

ac

ac heb adnabod Crist nid oes iechydwriaeth. A'r neb ni cheisio gydnabyddiaeth â Christ yn y bŷd yma, nid edwyn ynteu hwnnw yn y bŷd â ddaw. Ioh. 17. 13.

Cymro.

Bêth yw'r ail budd, neu'r llesâd o chwilio yr Scrythyrau?

Yr ail budd, yw bywyd tragywyddol. *Chwiliwch yr Scrythyrau, canys ynddynt hwy yr ydych yn meddwl cael bywyd tragywyddol*: *ac nid* oeddynt yn cam-feddwl. Canys yn yr Scrythyrau y mae Duw yn dangos y ffordd i fywyd tragywyddol, drwy egluro Crist yr hwn yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd. Pan ofynnodd rhyw Gyfreithiwr i Grist, *pa beth a wnaf i gael bywyd tragywyddol, ynteu a ddywedodd wrtho; pa beth sydd scrifennedig, pa fôdd y darllenni*? Io. 14. 6. Luc. 10. 25.

Cymro.

Eglurwch i mi, attolwg, yn fanylach ddalltwriaeth yr ymadrodd hwn â ddywed Crist, am gael bywyd tragwyddol drwy chwilio yr Scrythyrau: ac os ydyw y peth mor angenrheidiol

ac

ac anhepcor, yna y bydd ei waed ar ei ben ei hûn, pwy bynnac â esceuluso ei wneuthur.

Car-wr.

Pawb oll o ran eu cyflwr anianol
Eph. 2. 2. ydynt yn feirw mewn pechodau: ac
Mat. 4. 16. yn gorwedd mewn tywyllwch, a chys-
1. Pet. 2. 25 cod angeu; yn myned ar gyfeiliorn allan o ffordd y bywyd. Eithr Duw drwy ei Air scrifennedig yn yr Scrythyrau sydd.

Yn gyntaf, yn adgyfodi, ac yn bywhau ei etholedigion oddi-wrth y meirw; ac am hynny y dywed *Moses*:
Deu-.32. 47. *Nid Gair ofer yw hwn i chwi, o herwydd eich enioes chwi yw efe.* Felly *S. Paul*
Phil. 2. 16. a'i geilw yn *Air y bywyd.* A S. *Peter*
Io. 6. 68. âddywed wrth Grist. *Gennid ti y mae geiriau bywyd tragywyddol.*

Eph. 2. 2. Yn ail, wedi eu bywhau, a'u cyfodi
Act. 26. 18. ofeirw i fyw, y mae Duw drwy ei Air yn llewyrchu iddynt, gan eu dwyn *o dywyllych i'r goleuni*; ac yno gweled y maent wrth oleuni y Gair, eu bod wedi myned ar gyfeiliorn; a'r môdd ysyrthiasant o'r cyflwr gwynfededig cyntaf y crewyd hwynt ynddo yn Adda,

i'r

i'r cyflwr naruriol melldigedig drwy bechod: yn yr hwn y buasent yn aros rhag llaw, oni buasai gael trugaredd Dduw drwy yr Achubwr Crist. Luc. 1. 79.

Yn drydydd, y mae Duw drwy'r Scrythyrau yn eu bywhau hwynt megis y bywhaodd efe *Ddafydd. Byth nid anghofiaf dy orchymynnion, canys a hwynt i'm bywheuaist.* A thrachefn: *canwyll yw dy Air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr.* Psal. 119. 110.

Yn bedwerydd, y mae iddynt drwy'r Gair â osodwyd yn yr Scrythyrau, gael nid yn vnig goleuni i'w harwain ar hyd y ffordd, ond ymborth ysprydol hefyd i'w diwallu, rhag i neb o honynt lewygu ar y ffordd; nid amgen y bwyd â beri i fywyd tragywyddol. Am hynny y dewisodd *Iob Air Duw o flaen ei ymborth angenrheidiol.* Io. 6. 27.

Yn bummed, yn yr scrythyrau y ceir arfau ysprydol i ymdrech, ac i orchfygu eich holl elynion ysprydol, a bydol â geisiont eich rwwystro i gerdded yn ffordd y bywyd ysprydol, a'ch troi ar ddidro rhag myned i'r by-

Eph. 6. 11. wyd tragwyddol. Cewch weled y ngair Duw yr arfogaeth (sef y doniau) angenrheidiol i ymladd; a'r gelynion sydd raid eu gorchfygu; a'r gwrth-ryfel y maent yn ei gynnal yn erbyn eich eneidiau oddi-mewn, ac oddi-allan. I ddiweddu, Gait Duw yw'r Trysordŷ diandlawd, cyflawn o bob daioni ysprydol a'r sydd angenrheidiol i ddedwyddyd didrangcedig: Ac megis am bethau y byd yma, rhaid yw chwilio a llafurio am danynt os mynnir eu cael a'u mwynhau i ddiwallu angenrheidiau y corph: felly am angenrheidiau yr enaid rhaid yw chwilio yr Scrythyrau.

Cymro.

Wrth hynny, eich meddwl chwi yw hyn, fod Gair Duw yn fywyd i'r meirwon, yn oleuin i'r Deillion, yn ffordd i'r anghyfarwydd, yn ymborth i ddiwallu, ac yn arfau i ymddeffyn Dŷn Duw, a'r Gair hwn meddwch chwi sydd raid ei chwilio: eithr berh âddywedwch chwi am S. *Paul* yr hwn â ddywed mai *drwy ffydd y byddir cadwedig*; a ffydd sydd yn dyfod o wrandy y Gair: pa fodd y cymmwyswch

Eph. 2.
Ruf. 10.

chwi

chwi y ddau beth hyn ynghŷd i gyttuno a'u gîlydd ?

Car-wr.

Duw â gyssyllteodd a ddau hyn ynghyd, gwrando, a chwilio yr Scrythyrau : ac â gyssyllto Duw na wahaned dŷn. Gwrando ar Bregeth S. *Paul* a chwilio yr Scrythyrau â oedd pregeth S. Paul yn cyttuno â hwynt yn ôl gwirionedd, oedd y môdd a ddychwelodd y Bereyaid i gredu, ac i fod yn gadwedig. Darllein, a chwilio y Prophwyd Esay ar scrythyrau eraill, a gwrando ar yr Apostol *Philip* yn agoryd, ac yn esponnio yr Scrythyrau a a ddûg yr *efnuwch* i gredu y Nghrist. Act. 17. 11. Act. 8.

Cymro.

Paham nad digon yw gwrando yn vnig i ddwyn dŷn i fôd yn gadwedig, heb orfod hefyd chwilio yr Scrythyrau ?

Car-wr.

Er bod gwrando ar bregethau yn angenrheidiol, canys ffydd sydd yn dyfod drwy glywyd ; etto y mae pedwar achos yn dangos yr angenrhaid o chwilio yr Scrythyrau. Ruf. 10.

Y cyntaf yw, gorchymmyn Crist i

chwilio, yr ail, *i brofi yr ysprydion a ydynt o Dduw*, sef i brofi athrawiaeth y Pregethwr, â ydyw yn gysson a Gair Duw, neu â ydyw y pethau hynny felly, fel y gallom osod ein ffydd, nid ar ddŷn, ond ar Dduw. Canys ffydd Dduwiol, ac nid ffydd ddynol â ddŵg i fywyd tragywyddol. Ac am hynny y mae Duw yn gyrrn ei bobl att *y Gyfraith, ar destiolaeth*: oni lefarant y Pregethwŷr yn ôl y Gair, nid oes goleuni ynddynt; ac ni ddylei nêb gredu
Esay. 8. 20. (yn lle athrawiaeth iachwyawl) y pethau â ddywedant.

Yn drydydd; fel y bu gau Brophwydi gynt, a gau *Apostolion*; fel y bu,
2. Cor. 11. 14.
2. Pet. 2. 15. y mae, ac y bydd gau Athrawon yn y dyddiau diweddaf, yn ymrithio megis *Prophwydi, Apostolion, ac Athrawon Christ*, gan ddywedyd *fel hyn y dywed yr Arglwydd*, ac etto llefarasant weniaith eu calonnau eu hunain, ac nid o enau yr Arglwydd. *O herwydd y cyryw weith-wyr twyllodrus yn ceisio gwyr-droi y gwrandawyr*, rhaid yw *profi yr yspydion a'i o Dduw y maent.* Canys
1. Io. 4. 1. ni ddylid *credu pôb yspryd.*

Yn

Yn bedwerydd, y Pregeth-wyr er eu bôd yn wŷr da, ac a'u calonnau yn vnion, etto dynion ydynt, ac yn ddarostynyedig i wendid. Ac o herwydd hyn y mae yn bossibl i wîr Bregeth-wŷr y gwirionedd allu gwŷro, a threillio mewn rhyw bethau oddiwrth y gwirionedd, mewn amryfusedd, neu yn ddiarwybod iddynt eu hunain fel y gwnaeth y dyscawd-wŷr goreu. Gan yr hên *Brophwydi* gynt, gan Grist a'i *Apostolion* yr oedd mesur digoll perffeith gwbl or yspryd, fel na allent gamgymmeryd yn eu athrawiaeth; eithr am eraill gynt ac wedi, er eu bôd o ddoniau ragorawl, ac yn dwyn odiaeth ar lawer (ie hyd yn oed y tadau â gyfrifir yn golofnau y Brîf-eglwys sef Awstin, Ierom, Bernard, &c) etto nid oedd eu llygaid mor eglur, a chrâff ac y canfyddent bôb peth; na'u athrawiaeth, mor ansiommedig ac na allant wŷro oddiwrth nôd y gwirionedd, gan nad oedd eu gwybodaeth hwynt ond o ran, ac am hynny y treullasant ôll mewn rhyw beth neu gilydd; yn vnic nyni a'i dilynwn hwynt gan

dderbyn eu hathrawiaeth cyn belled ac y byddont hwythau yn dilyn yr Scrythrau.

Yn ddiweddaf oll, y mae llawer o Bregethwyr yn y dyddiau hyn yn cereddu pechodau, a chnawdol drachwantau yr amseroedd hyn, yn llym, ac yn haerllyg ; ac am hynny yn cael gan ddynion drygionus y peth â gafodd y-pro : *Michaiah* gan *Ahab*, sef casineb, a dryg-air. O herwydd hyn fel y gallo pawb wybod nad ydynt yn dyscu dim ond yr hyn y mae Duw yn ei ofyn ganddynt, nac yn argyoeddi dim ond y peth sydd feius, ewyllys pob gwir Bregeth-wr ffyddlon yw i bawb o honoch chwilio yr Scrythyrau, er mwyn gallu o honoch weled eich hunain, nad yw yr Athro yn myned dim pellach nai Awdurdod, nac yn dyscu ddim amgenach nac y gallo ddwyn warant, a phrawf allan a Air Duw am dano.

Cymro.

Os yw yr Athrawon fel hyn yn anghyttuno a'i gilydd a'r dyscawd-wyr ffeilstyn gystal ar geir-wir yn dangos lliw, a rhîth ar brawf o Air Duw (er eu bôd

bôd fel y dywedwch yn gwyro y Gair) pa fodd gan hynny y gallwn ni sydd ddynion annyscedig drwy chwilio yr Scrythyrau adnabod gwahaniaeth a dirnad rhwng gwirionedd, a geudeb?

Car-wr.

Gwir athrawiaeth sydd yn cyttuno yn gysson â Gair Duw yn hollawl ym mhôb man, ac nid yw yn erbyn, neu yngwrthwyneb i vn man arall o honaw. Nid oes ie yn y naill fan, a nagê mewn man arall: Nid ywr Scrythyrau yn ymrafaelio a'i gilydd, eithr pa bêth bynnac â ddywed y naill le â gadarnhâ y lle arall; felly nid oes yno anghydfod, ond cyssondeb yn ôl rheol, a threfn yr iawn ffydd. Eithr gau athrawiaeth er ei fod yn cymmeryd escus, a lliw o Air Duw, etto y mannau o'r Scrythur â ddygir i'w brofi, â ŵyrdroir yn erbyn deall yr Yspryd glân, ac yn erbyn lleoedd eraill or Gair, y rhai â wir destiolaethant yr vnion wrthwyneb i'r hyn â deurir: megis hyn, rhai â heurant fôd mewn dŷn o naturiaeth beth tuedd gogwydd i gymmorth ei iechydwriaeth drwyddo

ei hun ; a'i hescus â gymmerant o eiriau yr Apostol ; sef *gweithredwch eich iechydwriaeth drwy ofn, a dychryn* ond pan iawn ystyrier ddeall y geiriau, ac y cymmwyser hwynt at fannau eraill o'r Gair, profi y maent y gwir wrthwyneb. Oblegit ein iechydwriaeth ni sydd yu gwbl oll o Dduw, ac nid oes ynom ni o naturiaeth ddim tu ag atto.

Cymro.

Ewyllysio yr wyf (fe ai gŵyr Duw) gael gwir wybodaeth o'r gwirionedd a Grâs i lynu wrtho fel na allo gauddyscawdwr twyllodrus drwy ymrithio megis Gwenidog Grist fy nhwyllo : A wyddoch chwi gan hynny oddi-wrth ddim moddion eraill i'w harfer fel y Caffwyf adnabod gwahaniaeth rhwng gau-athrawiaeth a gwirionedd ?

Car-wr.

Os ydych yn gwir garu y gwirionedd (fel y mae yr awr'hon yn dybygol wrth eich geiriau) Duw â ddengys i chwi y gwirionedd, ac a'ch ceidw ynddo rhag rhoddi o honoch goel ar gelwydd : Eithr y rhai nid ydynt yn caru, nac yn credu y gwirionedd, y mae

Duw

Duw yn eu gadael i gredu celwydd, o herwydd eu bod yn *ymfodloni mewn anghyfiawnder.* Hefyd os vfyddhewch i'r gwirionedd wedi ei wybod, *cewch adnabod y ddysceidiaeth ai o Dduw y mae.* Ac os adnewydda Duw chwi yn adnewyddiad eich meddwl i fod yn ofalus am ei wasanaethu ef, yna y cewch *brofi beth yw ewyllys Duw, yr hwn sydd ddaionus, cymmeradwy, a pherffaith.* I fyrhau, os rhŷdd Duw i chwi wir ostyngeiddrwydd calon, a gweithio ei wir ofn ynoch, yna *efe a'ch dysc yn y ffordd ddewisol, a'i gyf*-ammod fydd gyd â chwi i'ch cyfarwyddo, fel na'ch twyller gan vn gau-ddyscawdwr cyfrwys, er dyfned ei ddichellion, a'i ddysceideaeth yn ceisio eich gŵyr droi oddi wrth y gwirionedd. Gweddiwch ar Dduw am y doniau hyn, ac yno nid rhaid i chwi vnon vn gau-ddyscawdwr.

2. The. 2.10

Io. 7. 17.

Ruf. 12. 2.

Psal. 25. 9.

Cymro.

Dangosassoch yn syrn helaeth y budd, a'r llesâd sydd i'w gael drwy chwilio yr Scrythyrau, a gwrando ar Bregethau: ond dywedwch i mi, â ydyw

ydyw pawb ac sydd yn arfer o chwilio yr Scrythyrau yn cael y daioni hwnnw?

Car-wr.

Nag ydyw; o herwydd nad ydynt yn chwilio yn y modd y dylent wrth orchymmyn Duw, yn astud, yn ddyfal, yn ddiwyd, yn ofalus, ac yn ddiesceulus: eithr yn ddiofal, yn ddifraw, ac yn esceulus; heb ddal sulw, nac ystyried yn ddyfal y pethau y maent yn eu darllein. Ac felly y maent yn Cymmeryd Enw Duw yn ofer, ac yn gwneuthur gwaith yr Arglwydd yn esceulus, ac am hynny yn tynnu arnynt felldith Dduw i'w dialedd, yn hytrach na'i
Ier. 48. 10. fendith er llesâd iddynt.

Cymro.

A ddichon dŷn drwy ei athrylith dda, neu ei rym, a'i ddoethineb ei hûn chwilio yr Scrythyrau yn y modd y dylei i gael budd oddi-wrthynt.

Car-wr.

Na ddichon ddim; Canys heb Grist
Io. 15. 5. ni ellwch wneuthur dim. Efe sydd yn
Phil. 2. 13. gweithio yr ewyllys, ar gallu i hyn, megis i bob gweithred dda arall.

Cymro.

Cymro.

Pa fôdd y mae efe yn rhoddi Grâs, a grym i wneuthur hynny fel y dylem ?

Car-wr.

Mewn amryw ddull, ac agwedd sef 1. wrth ddechreu. 2. wrth ddilyn. 3. yn ôl y gwaith yn chwilio.

Cymro.

Pa fodd y mae Crist yn paratoi dynion i iawn chwilio, ac yn eu cymmorth er budd iddynt ?

Car-wr.

Drwy roddi iddynt lygaid i weled, a chalonnau i ddeall yr Scrythyrau, fel *yr agorodd afe ddeall ei ddysciblion.* Luc. 24. 45.

Cymro.

Drwy ba foddion y mae Crist yn rhoddi iddynt lygaid i weled, a chalonnau i ddeall yr Scrythyrau ?

Car-wr.

Drwy bregethiad ei Air. Felly *yr agorodd efe galon Lydia wrth wrando ar Paul* yn pregethu. O hyn y gelwir pregethiad yr Efengyl yn *wenidogaeth yr yspryd,* drwy'r hyn beth y mae Duw yn gweithio yn ei bobl ddewisedig, ddeall garwch i ddirnad deall yr yspryd Act. 16. 14.

pryd yn y Gair, ac awydd-chwant i
2. Cor. 3. 8. chwilio allan ddirgel, a dyfnion bethau
1. Cor. 2. 10 Duw.

Cymro.

Pa gymmorth â gânt gaddo pan elont y nghylch y gwaith i ddechreu chwilio ?

Car-wr.

Efe â bair iddynt ystyried eu bod yn nessau at Dduw i ymddiddan ag ef nid y nghylch matterion gwael ond pethau rhyfedd fawr yn cynnwys dirgeledigaethau Duwioldeb, a pherthynas iechydwriaeth eu heneidiau. Y mae efe drwy ei yspryd yn eu cynnyrfu i gymmeryd y gwaith mawr hwnnw
Heb. 12.28. yn llaw *drwy wyldra a pharchedig ofn, fel y gallont ryngu bôdd iddo ef.* Wrth agoryd y Bibl y maent megis yn agoryd genau Duw i lefaru wrthynt o'i Air, megis pe dywedent fel y dywe-
1. Sam. 3. 10. dodd *Samnel*: *llefara Arglwydd, canys y mae dy wâs yn gwrando.* Y mae Crist
Mat. 24.15. yn gorchymmyn i'r hwn a ddarlleno, ystyryed wrth ddarllein: A gostwng ei galon, a,i feddwl i ddal sulw yn ddyfal ar y peth â dderllyn ; fel y dywed y Pro-

Prophwyd. psal 95. 8. *Gwrandawaf beth ddywed yr Arglwydd Dduw &c.* Ac fel yr ae yr *Israeliaid* at *Moses* ei hûn i ymofyn am fatterion caled. Felly pan ddigwyddo wrth ddarllein bêth anhawdd ei ddeall, fel y digwyddodd i'r *Efnuwch*, yna cyrchu at wenidog crist i gael ganddo ef ddattod y cwlwm caled. Canys *gwefusau yr offeiriad a geidw wybodaeth, a thi a geisi y gyfraith o'i enau ef* &c. Act. 8. 30.

Cym rw.

Ond digon yw darllein y Gair yn rhygl, ac yn adrybelydr, pa raid y fâth astudrwydd wrth ddarllain ?

Car-wr.

1. Yn gyntaf, *pa bethau bynnac a scryfennwyd or blaen er addysc i ni yr scrifennwyd hwynt.* Sef i ni yn gystall ac i eraill : Am hynny y mae yn rhaid i ni yn enwedic chwilio yn ddyfal er budd, ac addysc i ni. Ruf. 15. 4.

2. Yn ail, y mae i ni addewid o gael deall, *a gwybod ewyllys, ac ofn yr Arglwydd, os gwaeddwn ar ôl gwybodâeth, os ceisiwn hi fel ceisio arian, os chwiliwn am Dani fel am dryssorau cuddiedig.* Diha. 2. 3.

3. Yn

3. Yn drydydd, yn y dyfnder y mae gweled rhyfeddodau yr Arglwydd. Yn y gwreiddin y mae'r sugn, ac yn y cynewillin y mae'r ffrwyth ac nid yn y gangen, neu'r cibin, neu'r bliscin. Nid yn y croen, y mae'r mêr ond yn yr ascwrn, felly nid yn y llythyren, ond yn nirgel ddeall yr yspryd y mae'r grym a'r melysdra a'r bûdd iw gael. Nid ar wyneb y ddaiar y ceir y mwyn arian, ac aur, ar tryssorau gwerth fawr eithr yn eigion, ac ym mherfedd y ddaiar ac am hynny rhaid yw cloddio yn ddyfn, a descyn i'r diffwys cyn eu cael allan : yn yr vn ffunyd rhaid yw chwilio'r Scrythyrau, a'u chwilio yn fanwl, ac yn astud er mwyn cyrhaeddyd tryssorau gwybodaeth a deall ysyrydol i ddiddanwch ein eneidiau.

Cymro.

Eithr y mae yn yr Scrythyrau lawer o bethau dyfnion (ac fel y dywed *S. Peter* a'm lythyrau *Paul* anhawdd eu deall) sef Rhagwybodaeth Duw a'i Arfaeth, etholedigaeth, adenedigaeth ar cyffelyb, â ydyw Duw yn canniadhau i bobl gyffredin chwilio y pethau hyn ?

Car-

Car-wr.

Y mae Duw yn canniadhau, ac yn gorchymmyn i'w wenidogion fynegu i'w bobl ef ei hôll gyngor, heb attal dim oddiwrthynt, ac am hynny y mae yn rhaid ir bobl hwythau chwilio â ydyw y pethau hyn felly, fel y dŷsc y *Pregethwyr. A pha bethau bynnac â scrifennwyd er addysc i ni yr Scrifennwyd hwynt*, a rhan ydynt o'r pethau amlwg â roes Duw, nid yn vnig i'r Gwenidogion, i'w treuthu, ond i'r bobl hefyd i'w dyscu.

Act. 20.

Ruf. 15. 4.

Deu. 29.29.

Cymro.

Ai possibl i bobl gyffredin allu, drwy chwilio, gael gwybod yn siccr â ydiw Duw wedi eu rhaglunio, a'u rhag ordeinio hwynt i fywyd tragwyddol cyn seiliad y bŷd, a bod eu henwau hwynt yn Scrifennedig yn llyfr y bywyd; ac os yw bossibl cael gwybodaeth, a siccrwydd o hyn, dangoswch, attolwg, pa fodd?

Car-wr.

Pe buasai hyn yn amhossibl, ni buasai Duw yn gorchymmyn i ni fod *yn ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth, a'n etho-*

Etholedigaeth yn siccr: Ar siccrwydd
2.Pet. 1. 16. hwn sydd i'w gael a'm ein rhaglunia-
eth, a'n Etholedigaeth, drwy chwilio
yr Scrythyrau, a'n calonnau ein hunain
hefyd. Canys *y rhai â ragluniodd Duw,*
Ruf. 8. 30. *y rhai â alwodd, â gyfiawnhaodd,* ac â
ogoneddodd efe. Dymma'r gadwyn
euraid ddiwahan sydd yn cyrhaedd o'r
nefoedd i'r ddaiar; ac i galonnau etho-
ledigion Duw ar y ddaiar: ac oddi-
yno yn cyrhaedd drachefn i'r nef: Pwy
bynnac gan hynny sydd wedi cael gw-
ybodaeth a siccrwydd (drwy Air Duw,
a chwilio ei galon i hûn) fod ganddo
afael yn y lingciau sydd y nghanol y
gadwyn hon, nid amgen, fod Duw
wedi ei alw ef drwy ei Air, a'i yspryd,
allan o dywyllwch anwybodaeth, a
drygioni i oleuni ffydd, a buchedd ddu-
wiol; a'i fod drwy'r ffydd hon wedi
ei gyfiawnhau, ac wedi ei sancteiddio
drwy yspryd Crist y mae efe wedi cael
gwybodaeth siccr ddarfod i Dduw ei
raglunio ef, a'i ragordeinio i fywyd
tragywdddol.

Cymro.

Os Caiff rhai wybod yn siccr eu bod
wedi

wedi eu Dewis i fywyd tragywyddol, a bod etholedigaeth Duw yn ddi-anwadal, ac yn ansiommedig, oni wnâ hyn hwynt yn ddiofal, ac yn ddifraw am wasanaethu Duw? oni thybiant y gallant fyw fel y mynnont, os gwyddant na ollwng Duw hwynt i fod yn golledig? Ac onid gwell fyddei eu cadw tan ofn, heb na chwilio, na gwybod beth à ddarparodd Duw o honynt, rhag iddynt esceuluso ofni Dnw ac abrgofi pob gofal am ei wasanaethu ef?

Car-wr.

Er bod rhai yn tybied felly, etto cam gymmeryd y maent. Nid oes neb yn ofni mwy rhag digio Duw, nac yn ei wasanaethu yn ddiwydiach a siccrwydd eu bod yn etholedigion Duw yn ôl *ei ragwybodaeth ef, drwy sancteiddiad yr yspryd.* Canys drwy wybodaeth o ddirfawr gariad Duw tu ag attynt, yn ei etholedigaeth i fywdd, y mae Duw yn tywallt ei gariad yn eu calonnau drwy'r yspryd, ac yn ennyn ynddynt gariad tu ag at Dduw. Drachefn, yr ydym ni yn ei garu ef, am

1. Pet. 1. 2.

Ruf. 5. 5.

iddo ef ein caru ni yn gyntaf. Ac am
Io. 4. 19. iddo ein caru cyn ein bod, y mae ar blant Duw ofn gwastadol rhag rhoddi iddo achos i ddigio drwy eu camweddau; gan wybod hyn, megis yr ordeiniodd efe hwynt i fywyd, felly yr ordeiniodd efe hefyd iddynt rodio yn ffordd y bywyd, drwy ei wasanaethu ef mewn vniondeb, a Duwioldeb hôll ddyddiau eu bywyd.

Cymro.

Dangoswch bellach y Grâs, a'r gallu y mae Crist yn ei roddi i'r sawl â chwiliant yr Scrythyrau i wneuthur iawn ddefnydd o honynt yn ôl eu chwilio.

Car-wr.

1. Yn gyntaf, y mae efe yn eu cynnyrfu i gofio y daioni â gawsant drwy ymddiddan â Christ wrth drîn ei Air ef, gan weithio ynddynt dristwch Duwiol am gasclu cyn lleied o fudd oddi-wrtho: yn enwedig gan nad oedd vn gair ofer â ddaeth o enau Duw, na allesid tynnu mwy llesâd o honaw pe buasent yn ymroddi i'w iawn ddeall ef ac i'w gadw.

2. Yn

2. Yn ail, y mae Crist yn rhoddi iddynt galonnau diolchgar am â gawsant o ddaioni, a diddanwch oddiwrth ei Air ef.

3. Yn drydydd, y mae Crist yn rhoddi iddynt nerth a gofal i gadw ei eiriau ef yn eu calonnau fel y gwnaeth Mair: ac megis y cuddiodd *Dafydd ymadroddion Duw yn ei galon fel na phechei yn ei erbyn*: *fel y preswylio gair Crist ynddynt yn helaeth.* Canys *y doethion â drysorant wybodaeth.* Pfal. 119. 11. Col. 3. 16. Diha. 10. 14.

4. Yn bedwerydd, ar y tryssor hwn y gosodant eu serch, a'u calon, gan fyfyrio y nghyfraith yr Arglwydd ddydd, a nôs. *Canys lle y mae y tryssor, yna y mae y galon hefyd.* Psal. 1. 2. Mat. 6. 21.

5. Yn bummed, y cymerant *Air Duw yn ganwyll i'w traed, ac yn llewyrch i'w llwybr.* Felly y mae Duw yn gorchymmyn *i Iosuah fyfyrio ar lyfr y Gyfraith ddydd, a nôs fel y gwneler yn ôl yr hyn ôll sydd scrifennedig ynddo*: felly yr oedd testiolaethau Duw yn gyngor wyr i *Ddafydd drwy dy orchymynnion y pwyllais, am hynny y casiais bob gau lwybr.* Psal. 119. 105. Iosh. 1. 8. Psal. 1 19.

6. Y chweched rhôdd y mae Crist yn ei rhoddi i iawn chwilwyr ei Air, yw gallu dwyn allan o ddaionus dryshor eu calonnau y pethau da â gasclasant wrth drîn y Gair yn gydwybodus: fel y gorchymynnodd Duw i bôb Pen-teulu. *Bydded y geiriau hyn yn dy galon, ac yspyssa hwynt i'th blant, a chrybwyll am danynt; pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddyth ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i ynu.* Ac y mae hefyd yn erchi: *diddanu. Pawb eu gilydd a chynnal y gweiniaid*; cyfrannu a'u gilydd y rhodd a dderbyniasant fel daionus orchwylwyr amryw râs Duw. Yna y dichon y rhai â chwiliant yr Scrythyrau ddywedyd wrth ei cyfaill fel y dywedodd *Iob* wrth yr eiddo yntau: wele ni â chwiliasom hyn, ac felly y mae efe, gwrando hynny, a gwybydd di er dy fwyn dy hûn.

Psal. 11. 4.

Col. 3. 16.

Diha. 10.19

1. Pet. 4.10

Cymro.

Wrth hyn mi â welaf yn eglur fod amryw fâth ar fudd, a llesad ysprydol i'w gael o chwlio yr Scrythyrau.

Car-

Car-wr.

Diddadl yw hynny. Yno y caiff dyn ei wir adnabod ei hûn; a gweled yn amlwg mor wael, ac mor ffiaidd, ydyw ger bron Duw, ac mor wrthwynebus yn ei olwg ei hûu, wrth ganfod yn nrŷch Gair Duw aruthredd ei holl bechodau erchyll â wnaeth efe erioed yno y caiff weled y dull, ar agwedd y merthyrwyd Crist drwy ei groes, a'i ddioddefaint dros ein pechodau ni. Pa dristwch duwiol â weithia hyn y nghalon y dŷn gras lawn, gan beri iddo lefain fel *S. Paul*: *Ys truan o ddŷn wyfi.* Ac fel y gwahan-glwyfus wrth y gyfraith, *aflan ydwyf, aflan ydwyf.* Ie megis *Iob ffiaidd yw gennif fi fy hûn, ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llŵch, a lludw.* Ie pa ofn, a dychryn, â ddaw arno wrth ystyried bygythion Duw yn erbyn ei bechodau, rhag iddo syrthio iddynt drachefn, a thynnu digofaint arno, Ie pa gyssur, a diddanwch ym mhôb cyflwr: mewn hawddfyd pan allo ddywedyd: *Canwyll yw dy Air i'm traed a llewyrch i'm llwybr*: ac mewn adfyd, *oni bai fod dy ddeddf yn*

Iob. 42. 6.

Psal. 129. 92.

Psal. 119. 92. *yn hyfrydwch, i ni, darfuasai am danaf yn fy nghystudd.* Ie pa dryshor o gynghorion Duwiol fydd ganddo pan fedro allan o Air Duw gynghori ei wraig a'i blent, a'i wasanaeth-ddynion, a'i gymmydogion *pa fodd y dylent rodio a bodloni Duw* Drwy dalu i bawb eu dyledion, *teyrnged i'r hwn y mae teyrnged yn ddyledus, toll i'r hwn y mae toll, ofn i'r hwn y mae ofn, parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus.*

Ruf. 13. 7.

Ie pa amldra o fannau or Scrythyrau sydd ganddo yn barod yn erbyn coelfuchedd, a gaugrefudd, ac i faentumio gwir wasanaeth Duw. Hefyd i atteb drosto ei hûn y nghweryl ei ymarweddiad duwioll, a sanctaidd, drwy gau safnau gwrthwynebwyr cnawdol, a gyrru taw ar goeg-fiarad-wyr, a ddadleuant yn erbyn y gwirionedd. Dymma'r ffrwythau, ar effeithiau gwirfuddiol â gânt y sawl â iawn-clwiliant yr Scrythyrau.

Cymro.

Pe rhôn â bod dŷn mor ddyfal yn chwilio Gair Duw ac yr ydych chwi yn gofyn, er hynny y mae côf y rhan fwy af

af o honom yn wan, a'n calonnau sywaeth yn fuscrell i ddwyn gennym ac i gadw gŷd â ni yr amryw bethau â ddarllenir yn yr Scrythyrau: hawdd gan bawb ollwng tros gof bethau da, er eu darllein, neu eu clywed yn fynych.

Car-wr.

Gwir; anhawdd yw cadw y cwbl, etto fe fwriada dŷn Duw gyd a'r *Prophwyd*: *Bŷth nid anghofiaf dy orchymynnion, canys a hwynt i'm bywheaist.* Ac o'i ofal am wasanaethu Duw efe â geidw lawer, er na chadwo y cwbl â ewyllyfiei ei gofio o'i Air ef: A phan ballo ei gôf efe â wŷr pa le y mae chwilio am y pethau a fynne ei wybod sef yn llyfr Duw. Psal. 119. 93.

Cymro.

Er daed y dadleuasoch y nghweryl chwilio yr Scrythyrau, er eglured eich rhesymmau, etto y mae llawer mâth ar ddynion bydol-feddwl â ymosodant yn daer, ac yn haerllyw i ddadleu yn erbyn yr ymarfer dduwiol, angenrheidiol hon; beth gan hynny â ddywedwch yn erbyn y rheini?

Car-wr.

Hyn â ddyweddaf fi ; pwy bynnac â ddywedo yn erbyn chwilio yr Scrythyrau sydd yn dywedyd yn erbyn Duw yr hwn â orchymynnodd eu chwilio hwynt ; ar cyfryw rai nid oes ganddynt ddim gwir gariad, nac i Dduw, nac i'w Air, nac i'w heneidiau eû hunain. Ac os medrwch chwi gofio, ac adrodd eu gwàg-resymmau hwynt, chwi â gewch atteb iddynt yn ol y gwybodaeth â roes Duw i mi.

Cymro.

Rhai a ddywedant mai ceisio yr ydych chwi godi arfer newydd, gan osod allan y pethe ni bu erioed yn gyffredin yn y wlâd hon, ac nid yw bossibl ei fod ym mŷsc cyffredin Gymru o herwydd llawer o rwystrau.

Car-wr.

Ni ddylem ni adael i ddim ein rhwystro i wneuthur ewyllys Crist, a'r pethau goreu ar lesâd ein eneidiau. Gwir yw mai arfer newydd y nghymru yw ymorol yn gydwybodus am Air Duw, eithr greshynaf oll yw'r peth, na baem ni yn gofalu am wneuthur ewyllys Crist

Crist megis cenedloedd eraill erioed, yn enwedig y Saeson; diwidrwydd yr rhai addylei ein cynnyrfu ni i'r cyffelib. Er derbyn o'n henafiaid ni gynt ffydd Grist lawer cant o flynyddoedd o'u blaen hwy; a bod (yn ddiammeu) Gair Duw y pryd hynny yn aml i'n plith yn eie tafodiaith ein hûn; etto fe fu coll mawr arno wedi hynny tros hir o amser, hŷd yr awrhon yn ddiweddar yr ennynnydd o newydd drwy râs Duw ac y mae beunydd yn ymhelaethu yn ein mysc: ac megis yr oeddym ni gynt yn blaenori ar y saeson mewn crefydd Gristnogawl; felly y maent hwythau heddyw yn rhagori llawer arnom ninnau mewn gwybodaeth, a zêl i wasanaethu Duw. Eithr y diffyg sydd o honom ni ein hunain eisieu chwilio yr Scrythyrau, yr hyn er ei fod yn beth newydd i ni, etto nid newydd y dylasei y ddyled-swydd hon fod, ond hen megis y mae gŷd â chenedloedd eraill. Eithr gan fod llyfrau ddigon wedi dyfod allan, y mae gobaith y bydd mwy o chwilio ar yr Scrythyrau y nghymru o hyn allan, fel yr amlhao,

amlhao, ac yr heneiddio yr ymarfer ddwwiol hon y Nghymru megis yn Lloegr.

Cymro.

Eithr y mae vn rhwystr mawr ar ffordd y Cymru rhagor a'r rai eraill, nid amgen nad oes yn hôll Cymru ond ychydig â fedr ddarllein Cymraec; oddieithr yr Eglwys-wyr; A digon llesc, ac anhyspys y medr rhai o'r rheini ddarllein eu hiaith eu hûn. A pha fodd y daw pawb yn gyffredin i chwilio yr Scrythyrau, gan na fedr y cyffredin eu darllein?

Car-wr.

Cywilydd Cymru yw bod cynnifer o honynt yn medru ieithoedd eraill, ac etto heb fedru darllein eu hiaith eu hûn. Eithr hawdd i'r rheini ddyfod i'w darllein, a rhag cywilydd dechreuant arni. Ac am y sawl ni fedrant ddarllein, dim nid anhawdd iddynt ddyscu, os byddant ewyllysgar, ac er eu bôd wedi myned mewn gŵth o oedran cyn dechreu, etto nid rhaid i neb wladeiddio am gymmeryd yn llaw bêth mor angenrheidiol; mwy gwradwydd o lawer

wer yw ei esceuluso hŷd yn hyn. Myfi â adwen rai vgein-mlwydd, a dêg ar hugain, ie a deugain oed, â ddyscasant ddarllein pan roes Duw iddynt râs i ofalu am eu hiechydwriaeth. Os bydd vn mewn teulu a fedro darllain, hawdd yw i'r lleill ddyscu gan hwnnw drwy fod y naill yn ewyllysgar i ddangos, a'r lleill i ddyscu. Ac nid yw cymmaint gorchest dyscu darllein cymraec, ac na allo pawb â fyddo ganddynt ewyllys iddi, yn hawdd ei gyrhaeddyd ac ar fyrr o amser. Eithr oni bydd neb yn tŷ â fedro darllain Gair Duw, oni bydd dim chwilio, na myfyrio ar ei Gyfraith ef, pa fodd meddwch chwi, y dichon y teulu hwnw fod yn deulu Duw ?

Cymro.

Y mae rhai yn medru darllein, a deall y Bibl yn saeson-aec, ac am hynny yn tybied nad rhaid iddynt hwy geisio y Bibl yn Gymraec, na dyscu ei ddarllein.

Car-wr.

Os yw pawb oll drwy'r tŷ yn deall saeson-aec, fe wasanaetha hynny : nid gwa-

gwaeth y naill iaith na'r llall eithr os oes rai o'r tylwydd heb ddeall saesonec fe ddylei berchen y ty ofalu, a darparu am gael o'r rhei ni ddyscu iddynt yn yr iaieh a deallont, ddarllein gair Duw.

Cymro.

Y mae rhai yn gywilydd-gar, ac yn wladaidd ganddynt chwilio'r Scrythyrau, o herwydd y bugeirhes y gwawd, ar gwatwor a gynnal dyinion drygionus yn eu herbyn.

Car-wr.

Nid oes nêb yn gwatwar y rhai a wasanaethant Dduw ond dynion annuwiol dirâs. Y mae yn rhaid dioddef
Mat. 5. 10. gwatwor er mwyn Crist, a'i efengyl; *A gwyn ei fyd â oddefo erlid, gwradwydd er ei fwyn ef.* A gwae yneb ni ddioddefo. Canys pwy bynnac fydd cy-
Mac. 8. 33. wilydd ganddo Grist a'i eiriaw yn *yr odinebus, a'r bechadurus genedlaeth hon, bydd cywilydd gan fab y dŷn yntef hefyd pan ddelo y ngogoniant ei Dad, gŷd a'r Angelion sanctaidd.* Gan hynny, ni ddylei neb arswydo gwasanaethu Duw drwy fawrhau ei Air ef, a chwilio yr Scrythyrau rhag gwawd a gwatwor

gwatwor drwg-ddynion, y rhi medd *S. Petr a yn y dyddiau diweddaf* (ac dymma'r dyddiaw hynny) nid gwradwydd, a chywilydd yw hyn, meddaf ond coron, a gogoniant i'r sawl a'i gwnêl.

Cymro.

Eithr i ba beth y prynir y Bibl, oblegit er ei ddarllain, ai chwilio, etto pwy o'r cyffredin bobl a'i deall? pwy a feidr gasclu o honaw feddwl yr yspryd glân, oni bydd rhyw vn a'i cyfarwyddo, fel y dywed yr *Efnuwch wrth Philip* y nghylch darllein y *Prophwyd Esay.* Act. 8. 3.1.

Car-wr.

Er bod y ngair Duw ryw fannau anhawdd eu Deall, fel yr man âddarllenei yr *efnwwch*;) etto y mae mannau eraill mor rhwydd, ac mor hawdd eu deall, *ac y rhoddant ddoethineb i'r angall, ac i'r bachgen wybodaeth a synwyr, cuddiedig yw Efengyl Grist i'r rhai colledig y rhai y dallodd Duw y byd hwn eu meddylian fel na thywynnei iddynt, &,.* Eithr i eraill, *Agorlad dy Air a rydd oleuni* medd Prophwyd) *Pair ddeall i'r rhai annichellgar* Ac am hynny 2.Pet.3.11. Diha. 1.4. 2. Cor.4.3. Psal. 119. 130.

ny darllened dyn Duw yr holl Scrythyrau, i fod yn gydnabyddus a'u stori, ac yn hyspys yn y drefn â osododd yr yspryd glan arnynt, a cheisied ddeall hyd y gallo ; ond pan ddigwyddo man caled neu ryw ddirgelwch megis y daw yn aml mewn prophwdyliaethau, a dammegion, yna angenrhaid yw cyrchu at ryw *Philip* i gael cyfarwyddyd ; canys *gwefusau yr offeiriaid a gadwant* Mal. 2.7. *wybodaeth, a'r gyfraith a geisiant o'i enau ef.*

Cymro.

Eithr nid oes gan dlodion mor modd i brynu llyfrau : os bydd ychydig dda tu ag at eu cadwraeth eu hun, a'u plant, ni allant hepcor ddim o hynny, rhag dwyn eisieu bwyd, a dillâd.

Car-wr.

Y mae a'r y tlottaf fwy o eisieu pethau ysyrydol i ddiwallu eu heneidiau, na phethau bydol i ddianghenu eu Iob. 23.12. cyrph. *Iob a ddewisodd Air Duw o flaen ei ymborth angenrheidiol.* Canys y mae gwell ymborth i'w gael i'r enaid 1 Pet. 2. 2. drwy *ddidwyll laeth y Gair er* cynnydd ysprydol, nac i'r corph drwy ymborth

borth corphorol. Angenrheidiaf peth, a buddiolaf y nhŷ gŵr tlawd yw Gair Duw, yr hwn a'i gwna ef yn oludog o Ras. Clôd Cristion da yw prinhau ychydig (o bydd rhaid) a'r ormodedd y bol, a'r cefn er mwyn darparu modd i gael llyfr Duw yn ei feddiant beunydd, o'r hwn y dichon, pan gymmero hamdden i'w ddarllein, dynnu cyssur i'w enaid yn wastadol, ac esmwythâu llawer a'r ei faich tlodi. A mwy difyrrwch i weision, a morwynion ar suliau, a gwyliau dreulio yr amser ar ddarllein, a gwrando, nac ar bottiau, a phibellau, a phibyddion, a gwell yw'r draul a wneler ar y naill, na'r arian a afradloner yn gywilyddus ar y llall.

Cymro.

Eithr ni ddichon y tlawd hepcor cimmaint o amser ac sydd raid i chwilio yr Scrythyrau, gan gyfodi yn foreu myned yn hwyr i gyscu, a bwytta bara gofidus. Digon bychan yw'r amser oll i ddarparu iddynt eu llynniaeth, ac i'r sawl sydd yn disgwyl wrthynt.

Car-wr.

Y mae yn rhaid i'r tlodion gymmeryd

ryd amser i gyscu, i orphwyso, ac i gymeryd eu hymborth, a chyffelyb angenrheidiau y corph, a phaham nac allant gymmeryd peth amser hefyd i'w dreulio a'r angenrheidiau eu heneidiau, drwy ymddiddan â Duw yn ei Air. Pa dlottaf fyddo dyn rheitiaf ôll iddo wahanaethu Duw. Ac nid yw tlodi yn rhwystro, ond yn hyttrach yn cynnorthwyo y tlawd i ddilyn Duwioldeb. Yr oedd Crist yn pregethu i'r tlo-

Luc. 7. 22. dion. *A'r tlodion oedd yn Derbyn yr*
Tuc. 4. 18. *Efengyl*, a'r cyfoethogion yn ei gwr-
Luc. 14. thod. *A Duw â ddewisodd dlodion y*
Iap. 2. 5. *bŷd hwn i fod yn gyfaethogion yn y ffydd, ac yn etifeddion ei deyrnas*, ond pa fodd ? drwy gyrchu at ei Air ef, &c. Ac dyna'r môdd iddo i gael bendith yr Arglwydd a'r yr ychydig fydde ganddio i beri iddo gynnyddu yn gyfoeth mawr. Ac nid yw Duw yn gofyn gan y tlawd mwy amser yn ei wasanaeth nac â allo yn hawdd ei hepcor, &c.

Cymro.

Gan na ddichon y tlodion ymescusodi nad rhaid iddynt hwy chwilio yr Scrythyrau : beth â ddywedwch chwi

chwi am y cyfoethogion? y mae ganddynt hwy lawer o bethau i ofalu am danynt fel yr oedd gan *Martha* gynt: *tîr i'w weled, ychen iw profi, a gwragedd wedi eu priodi.* Ni chânt fawr amser na hamdden i ymorol am y pethau hyn gan bryssurdeb ynghylch pethau bydol er mwyn darparu dros eu gwragedd, a'u plant, a'u teulu: rhai os esceulusant, *gwaeth fyddent na'r rhai di-ffydd.* Luc. 14.

Car-wr.

1. Yn gyntaf, gorchymmyn Crist yw chwilio yr Scrythyrau oflaen dim, er maint eu trafferth, a'u pryssurdeb. nid ydys yn dywdyd, o's cewch ennyd, neu hamdden i chwilio; nid oes mor fâth os yn y gorchymmyn, na lliw i gymmeryd escus i'w esceuluso o herwydd achosion bydol, ond chwiliwch (medd efe) er dim a ddigwyddo gan droi heibio bôb rhwystr. A'r hwn sydd yn erchi chwilio, sydd hefyd tan yr vn gorchymmyn yn erchi cymmeryd amser i chwilio. Oblegit ni ellir chwilio, na darllein, na gwrando heb gael amser, ac ennyd i hynny. Ac am hynny beth bynnac fyddo i'w wneuthur ni Preg. 1.

wasanaetha gadael hyn heb ei wneuthur *llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, ond am y bwyd a beri i fywyd*
Io.6.27. *tragywyddol.*

2. Yn ail, cofiwch atteb Crist i *fartha Martha, Martha yr wyt ti yn ymdrafferthu a'm lawer o bethau, eithr vn peth sydd angenrheidiol*; *Mair a ddewisodd y rhan oreu, yr hon ni ddygir oddi-arni* sef gwrando ar Grist a gofalu am deyrnas nêf, dyna'r pêth rheitiaf.

3. Yn drydydd, nid ewyllys Duw yw i nêb gymmeryd arno gymmaint o drafferthau bydol, ac o herwydd yr rhai yr esceuluser ei wasanaeth ef : ac ni fyn Duw wneuthur pethau y byd hwn yn rhwystr i bethau gwell; yn hytrach y dylid *tynnu ymmaith y llygad, a thorri ymaith y llaw neu'r troed a'n rhwystro,* hynny yw, troi heibîo y pethau cûaf a feddom yn hyttrach nag y caffont ein denu, na'n hattall oddiwrth ein dyledswydd i Dduw ?

4. Yn bedwerydd pa fwyaf o achosion bydol fyddo i'w trin, rheittiaf o'r cwbl yw cyrchu at Air yr Arglwydd

ydd am gyfarwyddyd, a chyngor i'w iawn-drîn, fel y bodloner Duw ym mhôb pêth â gymmerant yn llaw, ac y digwyddo bendith oddi-wrtho ef ar gwbl ôll o'r eiddynt. Iosh. 1. 8.

5. Yn bummed, esamplau gwasanaeth-wyr Duw gynt â ddylei ein cynnyrfu ni i wneuthur y cyffelyb yn yr achosion hyn: hwynt hwy yn dwyn mwy pwys arnynt mewn matterion bydol, na nêb yn ein mysc ni, er hynny ni esceulusent ddim o'r ddyled hon. Pan oedd *Daniel* fwyaf ei drafferth a'i flinder, etto efe yn erbyn gorchymmyn y Brenin daiarol *a weddie dair gwaith yn y dydd ar y Brenin nefol.* A'r Brenin *Dafydd saith waith yn y dydd*: a phryd na allei efe liw dydd gan achosion y deyrnas foliannu Duw fel yr ewyllysei, etto efe â fyddei *hanner nôs yn molianu Duw am farnedigaethau ei gyfiawnder.* Dan. 6. Psal. 119. 164. Psal. 119. 62.

6. Y chweched pêth â ddylei annog y goludog i chwilio yr Scrythyrau yw atteb Crist i'r rhai â wrthodasant ddyfod i'r swpper mawr, sef *ni chaiff yr vn o'r gwŷr hynny â wahoddwyd brofi o'm* Luc. 14.

o'm swpper i. Pa lesâd gan hynny sydd
Marc. 8. 36. ir bobl fydol hyn *pe gallent ynnill yr holl fŷd a cholli eu heneidiau eu hûn.* Gwae y bobl fydol sydd yn cael, ac yn cymmeryd hamdden i bob peth oddieithr i wasanaethu Duw. Pwy bynnac â gymmero ar eu cefnau yr hôll drafferthau â osodo y byd, a'i chawntau cnawdol arnynt, â orchfygir ganddynt, ac â gânt eu heinioes yn
Eccle. 8. 4. chwerw drwy wasanaeth caled. *Eithr*
Psal. 112. *calon y doeth a edwyn yr amser i wasanaethu Duw a dynion, ac a lywodraetha ei holl achosion wrth farn.*

Cymro.

Ond beth am wasanaeth-ddynion yn eu gwasanaeth caled, pa amser a gaiffy rhai hyn i chwilio yr Scrythyrau ?

Car-wr.

Odid nad yw'r nos yn rhydd iddynt, a'r dyddiau gwylion, a'r Suliau ; ac oni channiadha eu meistred bydol iddynt rydd-did ar y dyddiau hyn i wasanathu eu Meistr nefol, madws, a rhywyr ymadael ar cyfryw feistred digydwybod.

Cym-

Cymro.

Beth am y rhai ni wnânt na chwilio yr Scrythyrau eu hûn, nac ou bôdd gadael llonydd i eraill a'u gwnelo ; ond gwatwor, a gwawdio, a'u difenwi yn gywilyddys ?

Câr-wr.

Nid oes i'w ddywedyd wrth yr rheini, ond y peth â ddywedodd *Crist* wrth y *Phariseiaid, Gwae chwi ; Canys yr ydych yn cau teyrnas nêf o flaen dynion : canys chwi nid ydych yn myned i mewn,* Mal. 13. 13. *a'r rhai sydd yn ceisio myned, ni adewch* Luc. 11. 52. *iddynt fyned.*

Cymro.

Y mae yn yr Scrythyrau *ryw bethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annyscedig, a'r anghyfarwydd yn eu gwŷr-* 2. Pet. 3. 16. *droi i'w dinistr eu hûn* ; O herwydd hyn enbaid, a pheryglus yw i'r cyffredin ymgymmyrhedd a hwynt drwy eu darllein, neu eu chwilio.

Car-wr.

Felly yn ddiau y dywedir eithr ni ddylid ymadel ag iawn arfer ar bethau da, angenrheidiol O herwydd bod rhai yn eu cam-arfer hwynt : felly y gellid

ym-wrthod a bwyd, a diod, a dillad er mwyn bod eraill yn eu cam-arfer i lothineb, meddwdod, a balchder i'w dinistr eu hûn. Pwy â rwystrai i'r wenynen gasclu mêl o herwydd bod y prŷfcoppyn yn casclu gwenwyn o'r vn llysieun, y mae llawer o ddyscawdwyr, a gwrandaw yr dyscedig yn gŵyrdroi yr Scrythyrau i'w dinistr eu hûn, ac eraill, fel yr oedd y *gau Brophwydi*, y
2. Pet. 2. 1. gau Apostolion, a'r gau-Athrawon gynt, i'r rhai yr oedd pregethiad Gair Duw yn arogl marwolaeth i farwola-
2. Cor. 2. 16 eth: er hynny fo ddylei gwir ddyscawd-wyr, a gwrandawyr ddyscu, a gwrando, canys i'r cyfryw y mae y Gair yn arogl bywyd i fywyd, er ei fod yn y gwrthwyneb i eraill.

Cymro.

Ai rhŷdd i ddynion llûg sef rhieni, neu berchen tai esponnio, deongl, ac agoryd yr Scryrhyrau yn eu teiau eu hun yn neill-tuol, er mwyn dyscu eu plant, a'u teuluoedd?

Car-wr.

Rhŷdd, a hynny y mae Duw yn ei ofyn ganddynt sef dyscu eu plant a'u tylwyth,

tylwyth, a pha fodd y gallant eu iawnddyscu hwynt oni agorant iddynt y mannau caledion, ac an-hawdd eu deall? Eithr yn hyn y mae dau beth i'w ochelyd. Yn gyntaf, na chymmerant arnynt ddeongl Gair Duw, na'i esponnio mewn mâth yn y byd ar gynnulleidfa, ueu gymanfa o bobl wedi ymgasclu ynghyd o amryw deuluoedd; canys hynny a berthyn yn vnig i'r eglwys-wr cyffredin, ac nid oes i'r llugion awdurdod i gymmyrhedd oddiethr ar eu teuluoedd eu hun yn vnig: yn ail, ar fod o hynynt yn siccr ymmlaen-llaw fod yr hyn â esponniont, neu â ddyscont i'w teulu eu hun, yn ôl rheol y ffydd. Drachefn, am y gwybodaeth â gasclo neb rhyw ddyn wrth ddarllein, neu wrando Gair Duw, y mae yn rhydd iddo, ie y mae efe yn rhwymedig, pwy bynnac fyddo, i *ddwyn allan o ddaionus dryssor ei galon bethau da,* sef cynghorion, neu rybuddion, neu gyssuron, neu geryddon nid yn vnig iw Deulu ei hun, ond hefyd i'w gymmydogion. *Y brodyr, er dala dŷn ar ar ryw fai, chwy chwi y rhai sy ysprydol*

Gal. 6. 1. *cymmwyswch y cyfryw ddŷn ag yspryd mwyneidd-drâ, gan ystyried rhag dy* Thes 5. 11 *demptio dy hunan hefyd. Cynghorwch bawb ei gilydd, ac adeiledwch bob vn ei* Iud. 20. *gilydd* &c. *Ymadeiledwch yn eich sancteiddiaf ffydd,* &c.

Cymro.

Beth oni ddaw pawb o dylwyth y tŷ yn hyrwydd ac yn ewyllys-gar i wasanaethu Duw, onid dal allan yn wrthnyssig, ac yn anfodlon i'r pethau gorau ?

Car-wr.

Odid o deulu na byddo ynddo ryw *Gain* neu *Ismael* neu *Esau*, â gwrthwyneb ganddo i Dduwioldeb ; felly y *prophwydodd Crist, y byddei pump yn yr vn tŷ, dau yn erbyn tri ; a thry yn erhyn* Mat. 10. 35. *dau* : *A gelynion dŷn fydd tylwyth ei dŷ ei hûn.* Ac felly y bydd ymrannu, ac ymrafelio, ac ym bleidio yn yr vn tŷ, rhwng rhai di-serch i wasanaeth Duw, ar sawl â roddant eu brŷd ar wneuthur ei ewyllys ef. Canys odid, ac anamì cael yn yr vn tŷ bawb oll yn gyfan yn awyddus eu athrylith a'u llwyrfryd calon i wasanaethu yr Arglwydd,

glwydd, gan lynu yn lew wrth ei Air ef, fel tŷ *Cornelius* gynt. Ac o hyn y digwydda yn fynych fod y rhai Duwiolaf o'i rhan eu hun, a mwyaf eu gofal am gynnal, a chadw eu teulu ar ffordd sancteiddrwydd yn gorfod dioddef gwrthwyneb, a blinder mawr yn y cweryl hwn; ac er hynny yn cael rhai neu ryw vn o honynt yn wrthnyssig, ac yn wrthnebus ganddynt ddilyn llwybrau gwirionedd. Act. 10.

Cymro.

Eithr fe ddichon Duw droi *Saul* yn *Paul*, a thynnu ymaith y calonnau caledion, a rhoddi yn eu lle galonnau rhywiog, a hynaws i ymgais a Gair yr Arglwydd: Efe â ddichon pan fynno ei hûn o'r cerrig gyfodi plent i *Abraham.*

Car-wr.

Gwir yw hynny, ac efe ai gwna os gwêl yn dda, pan ddelo dydd eu hymweliad, yr amser cymmeradwy, a dydd eu hiechydwriaeth hwynt. Efe â ddichon beri iddynt garu, a chydtuno yngwasanaeth gwir Grefydd a'r rhai yr oeddynt gynt yn eu casau, ac yn

eu

eu herlid, er eu bod or ûn teulu, fel yr oedd *Ismael* ac *Isaac*.

Cymro.

Beth o bydd ywraig yn anghyttuno a'i gŵr yngwasanath Duw, pa foddion a gymmer y gwr i geisio ei hynnill hi i gydtuno ag ef yn y gorchwyl hwn ?

Car-wr.

1. Aed att Dduw drwy ddyfalweddio drosti ar agoryd ei llygaid i weled yr vn peth angen-rheidiol, a throi ei chalon i wasanaethu Duw gyd ag ef.

2. Yn ail, mewn amser cyfaddas, ac ar achlyshur cymmwys, cynghored hi drwy gariad, ac addfwynder i ystried or achosion hyn ; gan fod yn daer arni ar gyttuno ag ef yngwasanaethyr Arglwydd, heb adael llonyddwch iddi hyd oni ryngo bodd i Dduw fendithio ei waith, gan droi ei chalon i ymroi i'w gyngor Duwiol.

Cymro.

Beth onis gall efe mewn môdd yn y byd ei hynnill hi ?

Car-wr.

Ni

Ni ddylei efe er hyn gymmeryd escus i esceuluso gwasanaeth Duw yn ei deulu, ond cadw ei awdurdod ar ei dŷ, a chynnal gwasanaeth Duw yn ddianwadal drwy gadw trefn ddiball ar ddarllein Gair Duw, a gweddio, &c. Ac na roddo iddi achos tramgwydd i'w chaledu, a'i chryfhau yn ei chyndynrhwydd.

Cymro.

Beth os y gŵr â fydd gwarsyth, a diog i wasanaethu Duw yn ei deulu, pa ffordd a gymmer y wraig dduwiol ewyllysgar, i ennill calon ei gŵr, i gael ganddo ymroi i flaenori ar ei deulu, ac i wneuthur ei ran yn yr achosion hyn ?

Car-wr.

1. Yn gyntaf ; damuned ar Dduw drwy weddion dibaid droi, a pharatoi calon ei gŵr i ofalu am wasanaeth yr Arglwydd.

2. Yn ail, damuned ar ei gŵr feddwl ac ystyried mai gorchymmyn Crist yw iddo chwilio yr Scrythyrau, *a meithrin ei blant mewn addysc, ac athrawiaeth yr Arglywdd.*

3. Yn

3. Yn drydydd bydded ostyngedig, ac vfydd iddo ymmhôb peth yn yr Arglwydd, fel *drwy ei hymarweddiad diwair y nghyd ag ofn yr ynniller ei gŵr heb y Gair, &c.*

1. Pet. 3. 1. 2.

4. Yn bedwerydd, yn ôl esampl y wraig oludog o *Sunem* attolyged i'w gŵr wneuthur croesaw i ŵr Duw â fyddo yn cynniwair heibio, gan ei dderbyn i'w dŷ, yna eirioled ar *Eliseus* am annog ei gŵr i wasanaethu Duw.

Cymro.

Beth os ei gŵr ni wrendu arni hi, nag ar gyngor nêb arall yn yr achosion hyn ?

Car-wr

Act. 16. 1. Dilyned esample *Eunice* mam *Timothi*, yr hon oedd *Iuddewes* ac yn credu, er bod ei gŵr yn *Roeg-wr*, ac heb gredu : heb ymorol am ddyscu i'w fâb *Timothi* wybodaeth yr Scrythyrau, etto yr oedd ei *fam yn ei feithrin ef er yn fachgen yngwybodaeth yr Scrythur lân.* Ac er bod ei gŵr megis *Nabal yn fab y fall fel na ellir ymddiddan ag ef* yn cymmeryd ffordd ddrŵg ; ac yn tynnu Dia-

2. Tim. 3. 15.

Dialedd Duw arno ei hûn, ac ar i deulu: etto ei rhan hi yw megis *Abigail*, drwy Dduwioldeb, a doethineb cymmeryd ffordd i attal dial Duw rhag syrthio er ei thŷ, a'i thylwyth. Ac yn amser trallod a chyfyngdra canlyn esampl *Hester* yr hon â ymrodd a'i llangcessau i wasanaethu Duw drwy ymprydio, a gweddio pan oedd ei gŵr yn ei lawenydd yn ymyfed gyd a'r gelyn *Haman*. 1. Sam. 25. 3. Hest. 4. 16. Hest. 3. 15.

Cymro.

Beth os bydd vn, neu ddau o'r plant yn ewyllysio darllain Gair Duw, a myfyrio arno yn fynych. Ac etto y Tâd ar fam yngwrthwyneb iddynt?

Car-wr.

Gweddient ar Dduw ddydd a nos ar iddo droi eu calonuau hwynt i'w wasanaethu ef; ac ymbilient yn daer â hwynt am gael cennad, a rhydd-did i ofalv, a darparu dros ei eneidrau, &c.

Cymro.

Beth os y rhieni fyddant Grefyddol, ar plant yn gyndyn, ac yn anraslawn?

Car-wr.

Yn gyntaf, holant eu cydwybod eu hûn

hûn â fuant esceulus yn eu meithrin, hwynt ac yn eu haddyscu yn ofn yr Arglwydd, ac edifarhânt am eu diffyg yn hyn o beth.

Yn ail ymbilient â Duw am eu dwyn hwynt i'r iawn, fel y dûg efe y *mâb afradlon.*

Yn drydydd, damunent ar y sawl a'i caro eu cynghori, a'u ceryddu, ac i'r rhai sydd ac awdurdod ganddynt i cospi yn ôl â haeddont.

Cymro.

Beth os bydd y gwasanaeth-ddynion hefyd yn ddichwant i wasanaethu Duw, ac yn ddiflas ganddynt ei cymmell i hynny gan eu *meistred* ?

Car-wr.

Er daed eu gorchwylwaith er budd i ddynion, oni bydd ganddynt serch, ac awydd ir gwaith yspryd ol, yn ôl Arfer cyfryngau cymmwys i'w gosod ar vniawn-ffordd iechydwriaeth, drwy gynghorion, a cheryddon, a chospedigaethau, oni wellhânt er hyn cofied y meistr yr hyn â ddywed y Brenhin Duwiol, *na chai yr vn drygionus aros yn ei dŷ ef, nac yn ei olwg,* ond *yr hwn a rodiei*

a rodiei mewn ffordd berffaith hwnnw a'i gwasanaethei ef. Psal. 101. 6.7.

Cymro.

Attebasoch bellach i gymmaint ac oedd gennyf ar hyn o amser i,w ymofyn am y matterion hyn; gobeithio y bydd o hyn allan llai o ymddadleu yn erbyn gorchymmyn Crist ynghylch chwilio yr Scrythyrau, ac y bydd ychwaneg yn ymroddi ir arfer dduwiol hon, drwy fendith ar yr ymddiddannion hyn. Yr aw'r hon cyn ymadael â chwi, mi â attolygaf i'wch na ommeddoch fi o ddau beth â ddamunaf arnoch.

1. Vn yw, bod o honoch yn eiriol ar Dduw drwy daer oestadol weddiau, ar iddo faddeu i ni y Cymru esceuluso mor gyffredin, chwilio yr Scrythyrau yn ôl gorchymmyn Crist, gan drugarhau wrthym, a gostwng ein calonnau o hyn allan *i gadw'r gyfraith hon.*

2. Yr ail damuniad yw ar osod allan o honoch i mi, ac i eraill ffurf ar weddi, fel y gallom weled, a gwybod pa fodd y dylem weddio ar Dduw am faddeuaint, a thrugaredd am â aeth heibio,

heibio, ac am Râs o hyn allan i ni ac i'n tylwyth i'w gŷd wasânaethu ef yn ddiymddadleu, ac yn ddiymbleidio o vn feddwl, vn frŷd vn galon, ac o vn genau mewn vniondeb, a gwirionedd ddydd, a nôs holl ddyddiau ein henioes.

Car-wr.

1. Sam. 12. 23. *Na atto Duw i mi bechu yn erbyn yr Arglwydd drwy beidio â gweddio trossoch. Dangosaf hefyd i chwi y ffordd-dda, ac vinawn sydd i'w harfer,* drwy weddi i gael cymmod â Duw, a chymmorth gan Dduw i'w iawn wasanaethu ef mewn yspryd, a gwirionedd.

Cymro.

Nid oes gennif yr awrhon ddim mwyach i'w ddywedyd wrthych, ac ni'ch rhwystraf i fyned at yr Arglwydd mewn gweddi trosom, a'r *iddo*

1 Sam. 12. 19. *drugarhau wrthym fel na byddom feirw, canys chwanegasom ddrygioni yn ddirfawr ar ein holl bechodau,* am esceuluso chwilio yr Scrythyrau: Etto gan yr Arglwydd ein Duw y mae trugaredd, a maddeuaint, er gwrthryfela o honom

Dan. 9. 9. i'w erbyn.

TERFYN.

Pa

Pa Ryw ymadroddion yw y rhai hyn yr ydych yn i bwrw at i gilidd dan rodio. Luk. 24. 17.

Onid oedd yn calon ni yn llosci ynom, tra yr ydoedd ef yn ymddiddan a ni ar y ffordd, a thra yr ydoedd ef yn agoryd i ni yr scrythyrau. Luk. 24. 32.

Hyn a scrifenuir ir genhedlaeth a ddel, ar bobl a greuir a foliannant yr Arglwydd. Psal. 102. 18.

Gweddi y Cymro am faddeuant *am iddo hyd yn hyn esceuluso chwilio* yr Scrythyrau, ac am Râs o hyn *allan i'w iawn-chwilio* hwynt.

O Ardderchoccaf Dduw a thrugaroccaf Arglwydd, myfi bechadur truan llawn muscrellni, ac anwybodaeth, â gefais wybod yn awr drwy dy Air di dy fod yn gorchymmyn i mi, ac i bawb chwilio yr Scrythyrau yn ddiwyd, ac yn ddyfal holl ddyddiau fy mywyd, fel y gallwn dyadnabod ti yr vnic Dduw, a'r hwn â anfonaist Crist Iesu. Yr wyf yn cydnabod, Arglwydd, i mi dorri y gorchymmyn hwn, a chyfeiliorni allan o'th ffyrdd di, o herwydd nad, oeddwn yn ymgais a'th Air i oleuo fy llygaid drwy ei gymmeryd yn gannwyll i'm traed, ac yn llewyrch i'm llwybr Bûm hyd yn

yn hyn o'm hoes : yn eistedd mewn tywyllwch anferthol, ac yn gorwedd y nglynn cyscod angeu, heb ystyried, na gwybod beth yr oeddwn yn ei wneuthur, nac i ba le y tueddwn O diriondeb dy drugaredd tosturiaf wrthif ddrŵg weithredwr truan ; Dyro i mi wîr edifeirwch o herwydd i mi drwy y pechod mawr hwn, a thrwy fy holl bechodau eraill dy gyffroi di i ddigofaint o Dduw. Maddeu, oh maddeu i mi er mwyn dy fâb Iesu y cwbl oll : Canys yn ddi-arwybod drwy anghrediniaeth y pechais y pecbod hwn yn dy erbyn. A chan ryngu bodd i ti roddi i mi ewyllys i chwilio yr Scrythyrau o hyn allan ; dyro i mi allu i gyflawni hynny yn y cyfryw fodd ac y byddo gogoniant i'th enw di, a diddanwch i'm henaid, ac y byddo hefyd fy niwydrwydd, am gofal duwiol yn hyn, yn esampl hynod i erail i'w hannog hwythau i wneuthur y cyffelyb. Bywhâ fi gan hynny o Arglwydd yr hwn wyf farw mewn pechodau, a dyro i mi ennaint dy sanctaidd yspryd i egluro llygaid fy neall, ac i gryfhau golwg fy

ffydd fel y gallwyf â chalon syn hwyr-gall ddirnad y pethau sydd ang-enrheidiol i mi eu holrhein allan au casclu o'r Scrythyrau drwy eu man-wl-chwilio er anrhydedd i'th enw di, iechydwriaeth i'm henaid, ac eneidiau fy nhwylwyth. A phan elwyf yn-ghylch eu chwilio, na âd i mi Ar-glywdd, gymmeryd dy Enw sancta-idd yn ofer drwy wneuthur dy waith di yn esceulus, ond pâr i mi ddyfal syn-nied ar y pethau y byddwyf yn eu darllein fell y gallwyf eu deall. Ac o'th fawr drugaredd datcuddia i mi, ac ith rai bychain eraill, y pethau sydd guddi-edig i'r doethion, ac i'r deallus, fel y gallwyf gael gwybodaeth o'th ddyf-nion bethau di, O Arglwyd, ac y gosad-wyf hwynt i gadw yn fy nghalon, ac y gosodwyf fy holl serch arnynt megis ar y tryssor gwerth-fawroccaf, gan fyfy-rio ynddynt ddydd, a nôs, fel y bydd-ont yn oleuni i gyfarwyddo fy nhraed, ac i'm harwain drwy-anial dywyllwch y bŷd hwn i fywyd tragywyddol, ac yn ymborth i'm henaid rhag llewygu o honof ar y ffordd, ac yn arfogaeth yspry-

ysprydol i orchfygu fy holl elynion ysprydol, a chorphorol â geisiont fy rhwystro, neu fy ngwyr droi i fyned ar ddidro oddi-ar ffordd y bywyd. A phan welwyf ar nêb o'm teulu eisiau dim o'r pethau ysprydol â gesclais, ac â osodais yn fy nghalon drwy chwilio yr Scrythyrau, gwna i mi o ddaionus dryssor fy nghalon ddwyn allan bethau da er cyngor, cerydd, neu gyshur-iddynt. A chan fod dy ewyllys di yn gofyn gennif fyfyrio yn dy gyfraith ddydd a nôs, na âd i mi, O Arglwydd, na deffygio, na diogi yn y gorchwyl hwn; nac i nêb fy nigalonni yn yr iawn ymarfer o honaw hyd ddiwedd fy enioes. A channiattâ o'th fawr drugaredd i'm holl deulu wir ewyllysgarwch, calon i gydsynnio a mi i gadw dy orchymmyn hwn o chwilio yr Scrythyrau, a'th wasanaethu di mewn sanctaidd ymarweddiad, a duwioldeb, fel y digwydd i mi ac i'm tylwyth dy hôll fendithion bydol, ac ysprydol, â addewaist i'r cyfriw, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd, *Amen.*

A'th fendith di bendithier tŷ dy wâs yn dragywydd, 2. *Sam.* 7. 9.

Gweddi y Car-wr dros y Cym-*ru, ar i Dduw drugarhau wr-*thynt a gostwng eu calonnau *i gadw y gyfraith hon.*

O Arglwydd Dduw, Duw y Duwiau, tra mawr ac ofnadwy, Ceidwad cyfammod a thrugaredd i'r rhai a'th garant, ac â gadwant dy orchymynnion, yr hwn â wyddost ddirgelion calonnau pawb oll, â wyddost hefyd mai gwir ewyllys fynghalon a'm gweddi attat dros fy nghenedl anwyl ynol y cnawd yw ar eu bod yn gadwedig. Canys yr ydwyf yn dŷst fod gan lawer o honynt zêl Duw, eithr nid yn ol gwybodaeth, o herwydd na wyddant yr Scrythyrau. Gan hynny o amldra dy drugaredd yr anfonaist iddynt yn awr dy Air yn helaeth i'w plith, Anfon hefyd iddynt o Arglwydd, galonnau diolchgar, ac ewylle-

ewyllysgar i'w dderbyn drwy bob llawenydd, a pharodrwydd meddwl, ac i wneuthur mawr-gyfrif o honaw fel y llwyddô drwy dy fendith di, yn y peth yr anfonaist ef. A chan nad oes nêb yn y nêf, nac ar y ddaiar yn gallu nac yn deilwng i agoryd llyfr dy Gyfraith di, ac edrych ynddo, anfon y llew o Lwyth Iuda, gwreiddin Dafydd drwy ei yspryd i'w calonnau hwynt, i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei selau ef, fel y gallont weled y pethau rhyfeddol sydd yn dy Gyfraith, a'th Efengyl yn perthyn i'th ogoniant di, ac i iechydwriaeth eu heneidiau. Ac yn gymmaint â rhyngu bodd i ti ddwyn dy etholedigion drwy iawn chwilio'r Scrythyrau, i gael cydnabyddiaeth â thi, a thrwy hynny fywyd tragywyddol, gosod o Arglwydd, eu calonnau, a'u heneidiau ar lwybr hyffordd i ofalu am y gwasanaeth hwn: A maddeu iddynt eu cyffredinol esceulusdra hyd yr awr hon. Cadw a chynnal hwynt oll yn yr ymarfer dduwiol yma yn eu teuluoedd, ddydd a nos holl ddyddiau eu henioes, fel y byddo i dylwythau

y bobl dy addoli di, o Duw drwy iawn chwilio yr Scrythyrau, eiriol weddiau, a chanu Psalmau, fel y byddo llef gorfoledd, ac iechydwriaeth ym mhebyll y cyfiawn, ac fel y byddo Gair Crist yn preswylio yn gartrefol gyd â hwynt, nid yn vnig en eu teiau, ond yn ei calonnau: a hynny yn helaeth ym mhôb doethineb, gan ddyscu, a rhybuddio bawb eu gylidd. Pâr (O Arglwydd) i'th ddeheulaw wneuthur hyn yn nheuluoedd y Cymru megis y peraist yn lloegr: A phâr i'm llygaid weled hyn cyn fy myned, ac na byddwyf mwyiach; yna i'th glodforaf o herwydd i ti wrando ar lais fy nghweddi Moliannaf di am dy ddaioni, a'th ryfeddodau i'm cenedl anwyl. A phan welo fy llygaid dy iechydwriaeth di yn dyfod mal hyn i Dai fy nghenedl anwyl, yna canaf gân Simeon; sef yr awr hon Arglwydd, gollwng dy wâs mewn tangnheddyf, canys fy llygaid a welsant dy iechydwriaeth. A chan fod llawer drwy ddallineb eu meddyliau, a chaledrwydd eu calonnau yn dirmygu dy Air, a'th orchymmyn

hwn

hwn ynghylch chwilio yr Scrythyrau, gwared hwynt ôll, Arglwydd daionus, oddiwrth y plaau ysprydol hyn: trugarhâ wrthynt, a gostwng eu calonnau i gadw y gyfraith hon, a'th holl gyfreithiau eraill, er mwyn Crist.

Ac yn gymmaint a darfod i ti eusus O Arglwydd ostwng calonnau rhai on Cenedl anwyl i ofalu a'm gadw y gorchymmyn hwn, cynnal hyn rhagllaw, O Arglwydd, ym meddyl-fryd eu calonnau, ac na âd i neb o'u gwrthwynebwyr eu rhwystro, na pheri iddynt syrthio oddiwrth eu cariad cyntaf drwy adael heibio yr arfer dduwiol hon yn dy wasanaeth di, eithr cyssura, a chynnorthwya hwynt, a'u teuluoedd i barhau yn gefnog mewn gwir vfydd-dod i'th ewyllys, fel y cynnorthwyaist dy wâs Ioshuah; fel y byddo i'w zêl hwynt annog llawer eraill i ddilyn yr ymarfer sanctaidd hwn, ac y discleirio eu goleuni ger bron dynion, ac y gwelont eu gweithredoedd da er anrhydedd i'th Dduwiol fawredd di eu Tâd Nefol. Gwrando Arglwydd, o'th breswylfa yn y

Nefoedd

Nefoedd ar weddi dy wasanaeth-wr gwael; Dyro i mi, ac i'm cenedl yn ôl y cnawd, ddeisyfiadau fy nghalon, na ommedd fi o ddamuniadau fy ngwefusau er mwyn dy anwyl fâb Iesu fy Achubwr a'm Ceidwad; i'r hwn gyd a thi a'r yspryd glan y byddo Gogoniant, a Moliant ym mysc fy holl Genedl, a holl Genedloedd y bŷd o'r dydd heddyw byth yn dragywydd. Amen.

Felly y byddo.

TERFYN.

Oh frodyr, gwir Ewyllys fynghalon am Gweddi ar Dduw sydd, ar ych bod yn gadwedig. Rhu. 10. 1.

My fi yn ewyllyscar iawn a dreuliaf, ac a ymdreuliaf dros ych eneidiau chwi, er fy mod yn ych caru yn helaethach, ac yn cael fyngharu yn brinach. 2. Cor. 12. 14.

Boreuol

Boreuol weddi i'w harfer *mewn Teulu.*

YN foreu Arglwydd y clywi yn llef, yn foreu y cyfeiriwn attat, ac yr edrychwn i fynu, canys ti O Arglwydd a orchmynaist oll dylwythan y ddaiar, a theuluoedd y Bobloedd ith addoli ath foliannu di, gan fygwth tywallt dy lid ar y teuluoedd ni alwant ar dy E N W, a chan addo bendithio yr holl Deuluoedd ar bobloedd a alwant ar dy Enw, ac a ymadawant ai hanwiredd, gan hynny, er mwyn dy orchymyn, fel i bo i ni gael bod yn ddiangol oddiwrth dy lid, ac fel y caffom fod yn gyfrannog o'th addewidion, ir ydym yr awr hon wedy ymgynill oth flaen di O Arglwydd i alw ar dy Sanctaidd enw, er mewn Crist dyro i bob vn o honom yr ewyllus ar gallu, yr awr hon, i ddatcuddio yn hanwireddau, i gyffessu (drwy wir edifeirwch calon) yn camweddau,

Psal. 5. 5. 3.
Psal. 96. 7.
Iere. 10. 25.
Ma. 15. 19. 20.
Rhu. 10. 3.

Diha. 28.13 weddau, ac i ymadel an holl bechodau, canys gwyddom drwy dy air, na lwydda neb a guddio i pechodau, ond y sawl ai cyffessant ac a ymadawant a hwynt, a gânt drigaredd, o drigarog Dad er mwyn dy anwyl fab Iessu madde i ni ddallineb yn meddyliau a chaledrwydd yn calonnau, a gwared ni oll oddiwrthynt, Madde i ni hefyd, yn holl fwriadau, eiriau, an gweithredoedd drigionus, a wnaethom yn dy erbyn di o Dduw, ac yn erbyn dynion, on mebyd hyd yr awr hon, a dyro i bob vn o honom, lygaid i weled, glustian i glywed, a chalonnau i ddeall, dy holl orchmynion, fygythion, ath addewidion di, a grâs i vfuddhau dy orchmynion, i ochelyd dy fygythion, ac i gredu dy holl addewidion, bydded yn gofal Mwia ith wasnaethu di (o Dduw)

Heb. 12. 28. wrth dy fodd, gyda gwylder, a pharchedig ofn, a bydded yn hofn mwia Rhag dy ddigio di drwy drosseddu dy orchmynion, par i ni oll garu yr holl bethau yr ydwyt ti yn i garu, a chassau yr holl bethau yr ydwyt ti yn i gassau, a bydded i ni oll wneuthur dy

ewyllus

Ewyllus di, ac nid yn Ewyllus ni O Dduw, y dydd heddiw, a holl ddyddiau yn heinioes. Yr ydym yn gwir Ewyllyssio hefyd, Rhoddi gwir ddiolch i ti O Arglwydd, am dy holl ddaioni a Roddaist ac a addewaist i ni, yn benna, am dy fab Iessu Grist a roddaist yn Iechawdwr i ni, in hachub oddiwrth deilwng boenau vffernol, ac in dwyn i fywyd tragwyddol, drwy i ddarostyngedig vfudd-dod hyd angeu ie angeu'r groes, a thrwy i adgyfodiad, a'i dderchyfiad ir nefoedd, i baratoi lleoedd iw etholedigion; O Arglwydd fel i paratoaist Nef ith bobl, paratoa yn heneidiau ir nef hwnnw, a gwna ni yn gymmwys i gael Rhan o etifeddiaeth y Saint yn y goleuni, drwy farwolaeth Crist, a thrwy yn adgyfodi i fod yn greaduriad newydd, i ddilin buchedd newydd drwy rym i adgyfodiad ef, ir ydym hefyd yn Rhoddi diolch i ti am yn gwir wybodaeth O Grist, drwy yr Efengil, án gwir ffydd ynGrist, am yn heddwch dedwyddwch an diogelwch dan, a thrwy reolaeth a llywodraeth yn Harglwydd frenin, i fyw

Rhu. 6. 23. 45.

1. Tim. 2. 2. fyw yn llonydd, mewn pob Duwioldeb ac honestrwdyd. Diolchwn hefyd i ti am ein esmwythdra an lludded a gawsom y nos a basiodd, ac am yn cadw yn ddiangol hyd dechre y dydd heddiw, oddiwrth oll beryglon y nos, a chan nad oes vn dydd ar y byddom yn codi on gwely na bo gelynion yn heneidiau, sef y byd, y cnawd, ar cythrel, yn codi i wrthryfela ein herbyn, O Arglwydd nertha ni a phob nerth ysprydol fel na bo iddynt yn llygru, drygu, nan gwaehygu, Bendithia ni y dydd heddiw ath ras, cyfarwydda ni ath yspryd, i wneuthur yn vnig y pethau yr ydwyt yn i orchymyn i ni, o gariad, ac er gogoniant, i ti, fal y bo mwia buddiol i ni ac eraill; ac fal y digwyddo achossion newydd i ni ith folianu di O Dduw liw Nos, am dy drigareddau di ar hyd y dydd, bydded hyn oll i ni, id er yn haeddedigaethau ni, ond er dy drigaredddau di, drwy dy fab Iessu yn enw yr hwn gweddiwn fel i dyscodd. Ein Tad yr hûn hwyt, &c.

Pryd

Pryd-nawnol weddi i'w harfer *mewn teulu.*

Arglwydd ti a orchmynaist dy drigareddau liw dydd, ath gân fydd gida ni liw nos, sef gweddi ar Dduw yn heinioes, gan hynny cyfeirier yn gweddi ger dy fron fel arogldarth, a derchafiad yn dwylo fel prydnhawnol ofrwm, tywallt arnom yspryd gweddi, fel i byddo i ni dywallt yn calonnau oth flaen di o Dduw yr awrhon, drwy ddangos yn diolchgaruch am dy drigareddau, drwy gyffessu yn pechodau, a thrwy fod yn eiriol arnat am bob ysprydol a bydol ddonniau, fel y Rhoddest i ni lawer o achossion y dydd heddiw or boreu hyd y nos hon i'th foliannu di o Dduw, felly dyro i ni galonnau i ddangos yn diolchgarwch am danynt oll, ac fel y rhoesom i ti amriw achossion y dydd heddiw i ddigio wrthym drwy yn amriw bechodau, felly dyro i ni oll wir edifeirwch calon am

Psal. 42. 8.
Psal. 141. 2.

am danynt oll er mwyn Crist, a gwir sicrwydd ein hyspryd o faddeuant am danynt drwy dy yspryd ti, gad i ni gael cymmod a thi drwy yn Dadleuwr Iessu, llewyrched dy wyneb arnom, trigarha wrthym, a dyro i ni dy dangnheddyf, bydded dy olwg ath galon oth fawr drigaredd er daioni ar yn tŷ an Teulu yn dragywydd, gwna yn teulu yn Deulu i ti, yn plant yn Blant i ti, an gweision yn weision i ti, O Dâd a Meistr Nefol ti yr hwn ydwyt Benna Pen pob teulu, Rheola a llywodraetha yr holl deulu hwn, a goswng yn calonnau i vfuddhau ith Reolaeth ath lywodraeth di, ac fel ein gwnaethost yn dylwyth yn tŷ, dyro i ni vn feddwl ac vn galon ith wasnauthu di, Canys ti ydwyt yn gwneuthur pobl o un feddwl mewn teulu, dyro i ni wybodaeth on holl ddyledion i ti, iw gilidd, ac ein cymydogion, a gostwng yn calonnau i'w gwneuthur, drwy bob llawenydd, a pharodrwydd meddwl, dangos i ba le'r elwn, beth a wnawn, a pha fodd yr ymddygwn ym mhob lle, ym mhob peth, cadw ni Rhag drygu eraill, cadw eraill

Rhag

Rhag yn drygu ninnau, na âd i ddrigioni eraill yn gorchfygu ni, ond dyro i ni ras i orchfygu i drigioni drwy ddaioni, par i ni ymrysson yn vnig yn erbyn y byd y cnawd ar Cythrel, a phar i ni fod yn vn ac yn gyd tûn a'i gilidd yn ol Duwioldeb, ac os yw bossibl, hyd y mae ynom ni, par i ni fod yn heddychlawn a phob dyn, na ddyro ni i fynu i lygredigaeth yn cnawd, na âd i ni fyned ymlaen yn ein pechodau, tro ni oddiwrthynt, ac na âd i ni drachefn droi iddynt, megis Cî iw chwdiad, a Hwch iw thomllyd ymdrobaeddiad, na âd i ni ymfodloni ein hûn mewn Rhith Duwioldeb, gan wadu i grym hi, pâr i ni ochelyd ac ymwrthod ar cyfriw Ragrithwyr, paratoa ni erbyn amser profedigaeth, cadw a chynal ni yn amser profedigaeth, a gwared ni oddiwrth brofedigaeth, Sancteiddia dy holl gystuddiau ath gospedigaethau a welych yn dda i hanfon arnom, er llessad i ni, fel i bo i ti O Arglwydd drwyddynt hwy, lanhau yn anwiredd, dynnu ymaith yn pechod (yn ol dy addewid) an gwneuthur yn gyfrannogion

Rhu. 12.21.

2. Pet. 2.21.

2. Tim. 3.5.

Isa. 27. 9.

Heb. 12.10.

gion oth Sancteiddrwydd. Gwna yn Harglwydd frenin yn Dad Maeth, an Brenhines yn fam maeth ith Eglwys, o amldra dy drigaredd amlhâ Dduwiol Swyddogion, Gweinidogion, a chyffredin cymru, a lleihâ yr annwiolion, gwir ewyllys ein calonnau an gweddi attati O Dduw yw dros yn cenedl yn
Rhuf. 10.1. ol y cnawd, ar i bod yn gadwedig, paratoa ni O Arglwydd, fel pan ymadawom an tû daiarol hwn, y caffom Dŷ,
2. Cor. 5. 1. nid o waith llaw, ond tragwyddol yn y nefoedd, i'th ddwylo, ac i'th gadwreth di O Arglwydd, ir ydym yn gorchymmyn yn heneidiau an Cyrph, ac oll ar sydd eiddom, gan attolwg i ti gadw y cwbl ath gadarn allu y nos hõ oddiwrth yn bydol ac ysprydol elynion, a Rhoddi heddwch ac esmwythdra ein heneidiau an cyrph fel i bo i ti adnewyddu yn nerth, erbyn y dydd nessa i'th wasanaethu di yn ol dy ewyllys, caniatâ hyn oll i ni er mwyn dy anwyl fab Iessu Grist yn harglwydd, yn Enw yr hwn y gweddiwn fel y dyscodd i ni. Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd, &c.

Bo-

Boreuol weddi Penteulu ar *y dydd Sabboth.*

O Arglwydd Dduw y Sabbath yr hwn a orchmynaist im i, ac i'm holl deuleu, goffa cadw yn Sanctaidd y dydd sabboth, i'r ydwyf yn ewyllyssio (drwy wir dduwiol dristwch calon) addef oth flaen yr awr hon, i mi ac im teulu anghofio dy orchymyn o sancteiddio dy Sabboth, halogassom dy Sabothau, drwy esceulusso dy wasanaeth oddimewn, ac oddiallan, a thrwy Rodio yn ein ffyrdd yn hûn, gan ymroi yn hûn, i feddyliau, geiriau, a gweithredoeth bydol, a chnawdol ar dy ddydd di o Dduw, am hynny melldithiaist, ac ni fendithiaist, O Arglwydd y seithfed dydd i ni, daethom ynghyd ar dy ddydd Sabboth, ith wasanaethu di, nid er gwell, ond er gwaeth, yn pechodau ni ar y Sabboth, a attaliassont ddaioni

1. Cor. 11. 17.

y Sabboth oddiwrthym, oh madde i ni oll er mwyn Crist y pechod hwn o halogi y Sabboth, a chwanegassom att yn holl Bechodau eraill, a dyro ras i mi am teulu Sancteiddio dy ddydd sabboth, fel y gorchmynais i ni, ac nid fel y byddo da yn ein golwg yn hûn, drwy ymadel an ffyrdd, an ewyllus ac an geiriau yn hun, a galw y Sabboth yn hyfrydwch, gan dy wasanaethu di o arglwydd mewn llawenydd a dyfod oth flaen mewn gorfoledd, a gwrando ar dy lyferydd heb galedu yn calonnau ; gan dy fod ti yn gweled yn dda drwy ffolineb Bregethiad gadw y rhai sydd yn credu, o arglywdd pâr i ni gredu hyn anfon i ni, a chadw a chynal yn ein mysc Wir bregrethiad dy Air, drwy roddi i ni, ac ith oll etholedigion yn ein mysc, fugeiliaid wrth fodd dy galon ein porthi a gwybodeth ac a deall, par i ni weled dy nerth, dy brydferthwch, ath ogoniant yn dy gyssegr, fel y gwelomac y profom mor dda ydwyt, ir sawl a nessao attat, fel y bo in heneidiau hiraethu a Sychedu am danat ti o dduw ac fel i bo i ni hoffi trigfan dy dŷ a phres-

Psal. 110. 1.2.
Psal 95.7.8
1. Cor. 1.21
Ier. 3.15.
Psal.27.4.
Psal. 63.2.
Psal. 73.28.
Psal 42. 1.
Psal. 25. 8.

phresswylfa dy ogoniant; paratoa yn heneidiau an cyrph i fyned yng hylch dy wasanaeth, par i ni olchi yn dwylo mewn diwidwydd (drwy wir edifeirwch calon am yn oll bechodau) cyn i ni ddyfod i amgylchu dy allor, dyro i ni oll, lygaid i weled glustiau i glywed a colonnau i gredu dy addewidion, i grynnu wrth glywed dy fygythion, ac i vfuddhau drwy lwyrfryd calon yn wastadol dy oll orchymynion, fel i bo dy air di yn arogl bywyd i fywyd i ni oll, ac nid yn arogl marwolaeth i farwolaeth i vn o honom, par i ni ymgadw oddiwrth y bobl sydd yn halogi dy sabboth, a bod yn gefeillion ir cyfriw ai Sancteiddiant ef. Na âd i Rwystrau cnawdol, nac i escussodion gwael bydol, yn cadw, nan tynnu, oddiwrth dy wasaneth, ar dy ddydd di o Dduw, ond par i ni barhau drwy yr holl ddydd, yn yr ymarfer dduwiol a orchmynaist i ni, drwy wrando ar bregethau, chwilio yr Scrythyrau, ganu Psalmau eiriol weddiau, nefol feddyliau a myfyriau, a thrwy ymddiddanion ysprydol, ymweled ar clwyfus, ddiwallu

yr anghenus, a diddanu y galarus : gorweddassõ cyscassom deffroessom codassom canys ti o Arglwydd an cynnheiliaist y nos aeth heibio, cadw ni hefyd y dydd heddiw fel i bo i ni y nos nessa dy foliannu di am dy fendithion, ysprydol a chorphorol ar hyd y dydd, er mwyn Iessu Grist yn harglywd yn enw yr hwn y gweddiwn fel in dyscodd, gan ddwedyd, ein Tad yr wyt yn y nefoedd, &c.

Prydnawnol weddi pen teulu ar *y dydd Sabboth.*

FEl y mae yn gwbl addas ac yn gyfiawn i ni o arglwydd, fanegu dy
Psal, 92. 2. drigareddau di ar dy ddydd Sabboth y borau, felly dy wirionedd y nosweithiau, gan hynny, megis an henediau y ceisiassom di y bore, felly an oll yspryd,
Isa. 26. 8. oddimewn y ceisiwn di liw nos, gan attolwg i ti er mwyn Crist fadde i ni yn gwendid yn dy wasaneth di y dydd heddiw, am wneuthur dy waith yn esceulus yr ydym yn haeddu dy felldith,

canys

canys ni wasanaethassom mo honot fel y dylassem mewn yspryd a gwirionedd, an holl enaidiau, Nerth, an calonau, Nessauasson attat an genau, anrhydeddassom di an gwefussau, a bu yn calonnau yn bell oddiwrthyt, y cyfriw wasaneth sydd ffiedd yn dy olwg O Arglwydd, ac yn anfuddiol i ni, par i ni ediferhau am y dryigioni a wnaethom, a phar i ni gofio a chalyn y daioni a glywsom, planna nhwy yn ein calonnau fel i ffrwythont yn ein buchedd, ie planna ni yn dy dŷ O Arglwydd, a phar i ni flodeuo yn dy gynteddau, canys gwell yw vn diwrnod yn dy gynteddau, na mil ym mhebill annuwioldeb. Isa. 29. 13. Psal. 92. 13. Psal. 84. 10. 14.

Oh llawn ddigona ni (ath oll etholedigion yn y wlad hon) a brasder dy dŷ, dioda ni oll ac afon dy hyfrydwch, canys gida thi y mae ffynnon y bywyd Crea O Arglwydd, (yn ol dy addewid) ar bob trigfa o fynydd Sion, ac ar i gymanfaoedd, gwmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamllyd y nos, i arwain dy etholedigion drwy anialwch a thywyllwch y byd hwn, ir nefol Ga-

naan, Moliant a fyddo i ti o Arglwydd am yn iechyd, nerth, an Rhydddyd a Roddaist i ni ydydd heddiw i fyned i'th gynlleydfa Sanctaidd, ac am yr ysprydol ddaioni a gawsom yno, fel y cedwaist ni O Arglwydd yn ein mynediad allan, ae yn ein dyfodiad i mewn y dydd heiddiw, felly ti ceidwad Israel yr hwn nid wyt yn huno nac yn cyscu,
Psal. 4. 8. par i ni orwedd y nos hon a huno mewn heddwch a diogelwch, oddiwrth yn holl elynion ysprydol a bydol, fel y byddo yn ein genau gân newydd y boreu o ddiolchgarwch i ti, Caniatâ i ni hyn a phob dawn arall angenrheidiol ar les yn heneidiau an cyrph er mwyn dy fab an iechawdwr Iessu, yn enw yr hwn y galwn arnat yn i weddi. Ein Tâd yr hun wyt yn y Nefoedd, &c.

Gweddi

Gweddi pen teulu
cyn bwyd.

O Drigarog Arglwydd Madde i ni, a marwolaetha ynom ni, yn holl bechodau, adnewydda yn calonnau gwellâ yn buchedd, Sancteiddia y creaduriaid hyn a roddaist oth haelioni i ni, ein porthi an Nerthu i fyned ynghylch gwueuthur dy ewyllys di, er gogoniant i ti, er llesad ein yn hûn, ac er diddanwch ein heneidiau, er mwyn yn iechawdwr Iessu Grist, Amen.

Diolch-

Diolchgarwch pen teulu *yn ol bwyd.*

ORaslawn a daionus Arglwydd ir ydym yn deisif on calonnau Roddi gwirfawr ddiolch i ti, am yn bywyd an golud, am yn nerth an iechyd, am yn heddwch an diogelwch, ac yn enwedig am Grist yn iechawdwr ac am bob dawn ysprydol a Roddaist i ni o'i cyflawnder ef drwy dy air ath yspryd, ac am yn cyflawn ymboth corphorol yr awr hon, portha ni yn benna ath yspryddol ymborth, fel i gallom drwy i Rym Rodio megis Cristnogion yn dduwiol yn gyfiawn ac yn sobr yn y byd sydd, fel y caffom yn y byd a fydd, fywyd tragwyddol drwy Iessu Grist yn harglydd, felly y bo.

At

At y darlleydd.

Y Darlleydd hy gar, y llyfran hwn â ddaeth attaf oddi tan law yr Awdur, yr hwn a'i geilw ei hûn ynddo, Car-wr y Cymru sef yw hynny yn ôl ei ddalltwriaeth ef, vn yn caru y Cymru; eithr Car-wr mewn deall cyffredin, a sathredig yw Câr, neu vn yn deiryd o garennydd, &c. Hwn wedi i mi ei ddarllein, a'i ystyried, mi â lawenychais yn fawr wrth weled ei ewyllys-garwch ef, a'i awyddfryd i wneuthur daioni i'w wlad-wŷr, yn enwedig yn achosion eu hiachawdwriaeth. I gyflawni hyn hyd y daeth erddo ef, ti â weli dy hûn mor gymmwys yw ei destyn, ac mor drefnus, a hyrwydd yw'r ffordd â gymmerodd. Canys i hyfforddi yr anghyfarwydd, ac i'w osod ar hwyl i ddilyn vniawnlwybr

lwybr Duwioldeb beth angenrheidiach na'i annog ef i geisio gwybodaeth o ewyllys Duw, pa fodd y mae efe yn gofyn ei wasanaethu? A pha fodd y gellir cael y gwybodaeth hwnnw ond drwy chwilio yr Scrythyrau? Ac i annog i chwilio yr Scrythyrau, pa ddull, neu ffurf ar ymmadrodd gymhwysach nac ymddiddanion mwynion thwng y Cymro, a'i Gar-wr? Lle y gelli weled yn eglur (onis gwyddost eusys) mor angenrheidiol yw y ddyled-swydd hon, nid i'r Eglwyswr yn vnic (fel y cam-dybia rhai, ac y trawsdaera llawer) eithr hefyd i bob mâth ar alwedigaeth, a grâdd o'r Brenhin Ardderchog i'r cardottyn clyttiog, megis y profir yn eglur yn y llyfran hwn. ni ryngodd bodd i'r Awdur osod ei henw, ei hûn wrth ei waith, ond ei gelu er mwyn arddangos i'r bŷd nad oedd ganddo galon Phariseiaidd yn disgwil clod, a chanmoliaeth, gan ddynion; ond meddwl issel-fryd, awyddus i osod allan ogoniant Duw, a chariad diragrith tu ag at ei Genedl a'i gyd-wlad-wyr i gymmorth peth arnynt hwythau, ac

i'w

i'w hyfforddi ar lwybrau iechydwriaeth. Derbyn gan hynny yn groesawgar y llefran bychan defnydd-fawr hwn ; ac am y llesâd (pa faint bynnac) â gesclych oddi-wrtho, dyro y Gogoniant i Dduw, Rhoddwr pôb Dawn daionus, a rhôdd berffaith, a gweddia dros yr Awdur : eithr oni fedri dynnu dim budd oddi-wrtho (ac yntef â llawer ynddo) bydded y bai ar dy ben dy hûn, nid gwaeth cyngor da i'r sawl a'i derbynniant, er nas derbynnio pawb. Bydd iâch y Cymro hawddgar, a Duw â roddo it Râs i osod dy galon ar hwyl i fod dy ewyllys y nghyfraith yr Arglwydd, ac i fyfyrio yn ei Gyfraith ef ddydd, a nos.

Yr eiddot yn yr
Arglwydd,

R. Lloyd.

TERFYN.

Felix Kyngston *ai preintiodd, dros yr Awdur, drwy Awdurdod.*